PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

## Adroddiad blynyddol 2019–20

## Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Adroddiad blynyddol 2019–20

### Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lansiwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn.

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

@Cymraeg

Facebook/Cymraeg

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

### Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40819 ISBN digidol 978 1 80038 754 6

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **2**

**Cyd-destun – *Cymraeg 2050*** **5**

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg** **6**

**Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg** **32**

**Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun** **41**

**Casgliad** **59**

# Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser cyhoeddi ein hadroddiad diweddaraf ar ein strategaeth iaith, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Dyma'r trydydd tro i ni adrodd ar ein cynnydd wrth weithredu'r strategaeth ac mae'r adroddiad yn dangos sut ydym ni wedi bod yn gweithio yn ystod 2019-20 i gryfhau'r sylfeini sydd wedi cael eu gosod ers lansio *Cymraeg 2050* yn 2017. Hoffwn ddiolch i bawb am yr holl waith sydd wedi'i wneud i gynyddu nifer y siaradwyr a'r defnydd a wneir o'r iaith. Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ddangos y gwaith sydd wedi'i wneud yng nghalon ein cymunedau, gan ein partneriaid grant a chan y Llywodraeth ei hun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Un o'n huchafbwyntiau eleni oedd cymryd rhan ym *Mlwyddyn Ryngwladol UNESCO ar gyfer Ieithoedd Brodoro*l – cyfle delfrydol i ni godi proffil Cymru yn rhyngwladol fel gwlad ddwyieithog a chadarnhau ein lle fel un o'r gwledydd sy'n arwain y maes adfywio ieithyddol. Fel y soniais yn ystod Gŵyl Ein Llais yn y Byd yn Aberystwyth, mae angen i ni fod yn gadarnhaol, creu undod a chynnig cefnogaeth, gan weithio gyda'n gilydd, gyda gwên, i gyrraedd y miliwn. Ymlaen tua'r dyfodol y mae edrych, nid am yn ôl. Ac roedd y flwyddyn yn gyfle i ni roi Cymru ar y map fel gwlad a chanddi iaith fodern, hyfyw sy'n estyn croeso i bawb – gwlad ddwyieithog, ac yn wir, amlieithog. Gallwn edrych ymlaen yn awr at *Ddegawd Ieithoedd Brodorol UNESCO* a fydd yn dechrau yn 2022.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut ry'n ni wedi bod yn gweithredu prif dargedau *Cymraeg 2050* o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol, i addysg ôl-orfodol a Chymraeg i oedolion. Mae hefyd yn sôn am brosiectau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a gwahanol gynlluniau sy'n helpu i wneud hyn yn bosibl ac yn haws.

Rydym wedi dilyn yr un strwythur â'r llynedd gan gyflwyno'r data a'r siartiau perthnasol o dan 15 pennawd y strategaeth fesul thema. Fel hyn, gellir gweld ein cynnydd yn ei gyd-destun, gydag esboniad a dadansoddiad ar y cynnydd a wnaed. Oherwydd COVID-19, nid ydym wedi llwyddo i gasglu'r holl ddata ar gyfer 2019-20 o'r ffynonellau arferol adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Felly lle bu modd, rydym wedi cynnwys gwybodaeth o ffynonellau eraill er mwyn rhoi darlun cynnar posibl, er nad y rhain yw'r ffynonellau cymeradwy arferol. Yn ogystal, gan y byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn gynharach yn y flwyddyn o hyn allan, gan ei wneud yn fwy perthnasol a galluogi gwell craffu ar ein gwaith, nid yw'r data diweddaraf ar gael ym mhob achos. Ein bwriad yw cynnwys diweddariadau pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Eleni, fe wnes i gyhoeddi ein bwriad i sefydlu Prosiect 2050. Uned newydd sbon fydd hon a fydd yn cydlynu ein gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at y miliwn, yn creu mentrau newydd i ddyblu defnydd o'r iaith ac yn cefnogi meysydd polisi ar draws y Llywodraeth i weithredu *Cymraeg 2050.* Bydd yn gweithio gydag amrywiol bartneriaid ledled Cymru a thu hwnt ac rwy'n edrych ymlaen at weld y gwaith arloesol y bydd yr uned amlddisgyblaethol hon yn ei gyflawni.

Roeddwn i hefyd yn falch o lansio ymgynghoriad ar y polisi drafft cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd – bydd y polisi terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn y Nadolig. Mae annog teuluoedd i ddewis y Gymraeg yn un o

feysydd pwysicaf *Cymraeg 2050*, ac rwy'n ffyddiog bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn torri tir newydd ar lefel ryngwladol ac y bydd yn helpu ieithoedd eraill i ddeall yn well sut y gall newid ymddygiad sbarduno trosglwyddo iaith.

Roedd hi'n braf gweld gwasanaeth Helo Blod yn cael ei lansio yn ystod y flwyddyn, sef gwasanaeth cymorth a chyfieithu sydd ar gael ar-lein a thros y ffôn i fusnesau bach a'r trydydd sector. Mae'r gwasanaeth yn mynd o nerth i nerth ac wedi bod yn adnodd hollbwysig yn ystod y pandemig.

Mae heriau yn ein hwynebu mewn ambell faes, fel mae peth o'r data yn ei ddangos. Mae'r rhain yn cynnwys recriwtio athrawon a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl 16 oed. Ond rydym ni'n gweithio'n galed ar draws y Llywodraeth a chyda'n partneriaid yn y sectorau dan sylw, ac yn parhau i gadw llygad ar y data er mwyn addasu ein cynlluniau os bydd gofyn.

Rhaid cofio mai ciplun o gyfnod penodol a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth eleni sydd yn yr adroddiad hwn. Wrth gwrs, mae'r byd wedi newid mewn ffordd nad oedd yr un ohonom ni wedi gallu ei ddychmygu na'i ragweld erbyn hyn.

Mae'n holl waith, gan gynnwys prosiectau ym maes y Gymraeg, wedi wynebu heriau dybryd eleni yn sgil COVID-19. Ond gyda phob her, daw cyfle cyffrous: cyfleoedd newydd sbon i edrych ar bethau mewn ffordd wahanol a chreu cymunedau newydd lle gall pobl ddod ynghyd mewn gwahanol grwpiau rhithiol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Yn ddi-os, mae'r genedl wedi ymateb i'r argyfwng. Er bod COVID-19 wedi newid ein bywydau, ac wedi bod yn gyfnod gofidus i ni i gyd, mae mor galonogol cael gweld sut mae pobl wedi ymateb i'r her. Mae arloesedd, agwedd benderfynol a chreadigrwydd ein partneriaid wedi creu argraff fawr arnaf i. Roedd hi'n bleser gwylio Eisteddfod T, Eisteddfod AmGen, clywed am waith gwirfoddol gwych y Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr a gweld pob math o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar-lein gan y mentrau iaith. Mae mwy o ddysgwyr wedi manteisio ar gyrsiau blasu ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ers mis Mawrth eleni na chyfanswm dysgwyr y tair blynedd flaenorol gyda'i gilydd. Mae'r cyfan oll yn dangos sut mae ein partneriaid wedi llwyddo i barhau i yrru polisi iaith a gweithredu amcanion *Cymraeg 2050*, yn ystod cyfnod mor anodd. Diolch am bopeth.

Rydym ni wedi ymateb i'r pandemig drwy gefnogi partneriaid, gan geisio rhagweld sefyllfaoedd ac ymateb iddynt, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae ymgyrch Llond haf o Gymraeg yn cefnogi rhieni plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn. Rydym wedi cynnal awdit o ddefnydd iaith yn ein cymunedau er mwyn gallu adnabod cyfleoedd newydd sbon i bobl ddefnyddio eu Cymraeg, ynghyd â gweld beth sydd mewn perygl.

Bellach, mae pecyn Cysgliad ar gael am ddim i unigolion a sefydliadau bach gan ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi bod yn ystyried effaith COVID-19 ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ac effaith y pandemig a Brexit ar yr economi wledig sy'n cynnwys cynifer o'n cymunedau ble mae canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw. Byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb masnach yn ergyd i'r sector amaeth lle mae 43% o'r

gweithwyr yn siarad Cymraeg ar draws Cymru – gyda chanrannau uchel iawn mewn rhai ardaloedd. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r pryder ynghylch ail gartrefi mewn rhai ardaloedd a gallu pobl leol i gael mynediad at y farchnad dai – a sgil effaith hynny ar sefyllfa'r Gymraeg. Rydym yn ystyried ar hyn o bryd sut y gallwn ei gwneud hi'n haws i bobl leol brynu tai sy'n fforddiadwy mewn ardaloedd fel hyn.

Bydd ein hadroddiad blynyddol nesaf yn cynnwys mwy o fanylion am y materion hyn ac unrhyw ganfyddiadau am effaith y pandemig. Bydd hyn oll yn gymorth wrth i ni baratoi ar gyfer rhaglen waith nesaf *Cymraeg 2050* ar gyfer ein Llywodraeth nesaf.

Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, rydw i wedi cael fy siomi ar yr ochr orau gan ehangder ac amrywiaeth y gwaith sy'n digwydd, nid yn unig gennym ni yn y Llywodraeth ond gan ein partneriaid, a chan unigolion a grwpiau ar hyd a lled y wlad. Rydym ni i gyd yn ymfalchïo yn ein hiaith, ac mae'n hyfryd gweld gymaint o bobl yn gweithio gyda'r fath angerdd i wneud gwahaniaeth, mewn cyfnod mor anodd. Er ein bod wedi gorfod gohirio nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau am y tro, byddwn yn ail-gydio yn y gwaith gydag egni a brwdfrydedd ar ôl i ni ddod drwy'r cyfnod heriol hwn. Mae COVID-19 wedi gwneud i ni feddwl yn greadigol a bydd llawer o'r arloesi anhygoel sydd wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf yn parhau pan fyddwn ni'n cefnu ar yr pandemig.

Er bod y cyd-destun ein gwaith wedi newid yn ddramatig ers i ni lansio *Cymraeg 2050* yn ystod haf 2017, mae ein blaenoriaethau strategol wedi aros yr un fath. Mae'r gwaith caled sydd eisoes wedi'i wneud a'r cyfleoedd newydd sydd wedi dod i'n rhan yn ddiweddar yn gosod sylfaen gref i'r llywodraeth nesaf barhau â'n gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Tachwedd 2020**

**Eluned Morgan AS**<br>**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**

## Cyd-destun – *Cymraeg 2050*

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth iaith Gymraeg. Mae ganddi ddau brif darged sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013-15) i 20% erbyn 2050.

Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru (o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) gyhoeddi adroddiad ar sut y cafodd y strategaeth iaith ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a pha mor effeithiol y bu'r gwaith o ran hyrwyddo a hwyluso sefydliadau a phobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2019-20, ac yn cynnwys manylion ar ein cynnydd o dan 15 pennawd y dair thema:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau ar y trywydd iawn tuag at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac felly, ochr yn ochr â'r strategaeth ei hun, cyhoeddwyd ein Rhaglen Waith ar gyfer 2017-21. Dyma'r gyntaf o sawl Rhaglen Waith y byddwn yn eu cyhoeddi yn ystod oes y strategaeth, a bydd pob un yn gosod targedau ar gyfer tymor y Senedd dan sylw ynghyd â chynnig cyfle hefyd i bwyso a mesur ac addasu yn ôl y galw.

Bydd hon yn broses araf, gyson, heb lwyddiant amlwg ar y cychwyn efallai, ac mae ein Rhaglen Waith gyntaf yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae gosod y seiliau ar gychwyn y cyfnod yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynnal camau pellach i weithredu'r strategaeth.


Byddwn yn cyhoeddi ein hail Raglen Waith y flwyddyn nesaf, a bydd gofyn iddi adlewyrchu sut y mae ein ffordd o fyw wedi newid. Drwy gadw llygad ar bolisïau wrth iddynt newid ac ymateb yn rhagweithiol i'r newidiadau hynny, byddwn yn sicrhau nad ydym yn colli golwg ar ein nodau a'n gweledigaeth gyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

## Y sefyllfa gyfredol – faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg?

Rydym yn defnyddio'r Cyfrifiad er mwyn monitro ein cynnydd tuag at y miliwn. Ond gan mai dim ond bob deng mlynedd y cynhelir y Cyfrifiad, rydym yn defnyddio Arolwg Blynyddol y Boblogaeth er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg. Fel arfer, mae amcangyfrifon yr arolwg yma'n llawer uwch na'r Cyfrifiad, fel mae'r siart isod yn ei ddangos:

**Siart 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynyddol a Chyfrifiad y Boblogaeth**




Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dueddol o fod yn uwch o lawer na ffigurau'r Cyfrifiad, maent yn ddefnyddiol er mwyn gweld patrymau neu dueddiadau yn nifer y siaradwyr.

Er bod ffigurau'r Arolwg Blynyddol yn amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn, y tueddiad sy'n dod i'r amlwg yw bod y niferoedd i'w gweld yn cynyddu'n raddol dros y degawd diwethaf, er eu bod wedi disgyn ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol, felly, roedd 855,200 o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019[1].

[1] Mae'r ffigurau diweddaraf ar gael yma: https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth

## 1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Roedd 82% o blant tair i bedair oed yn gallu siarad Cymraeg ar yr aelwydydd pâr hynny lle roedd dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad 2011. 45% o blant tair i bedair oed oedd yn gallu siarad Cymraeg ar aelwydydd pâr lle roedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Dyna pam y mae annog mwy o rieni a gofalwyr i drosglwyddo'r iaith i'w plant yn flaenoriaeth allweddol o dan strategaeth *Cymraeg 2050*.

Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid ar ôl i ni gyhoeddi astudiaeth ymchwil *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd* yn 2017[2]. Yn sgil hynny, aethom ati i ddatblygu polisi cenedlaethol drafft yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.

Ffrwyth y gwaith hwn oedd lansio ymgynghoriad ffurfiol ar ein *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*[3] ym mis Chwefror 2020. Mae'r ymgynghoriad hwn yn sail ar gyfer rhaglen waith a fydd yn para deng mlynedd, ac a fydd yn cynnwys prosiectau a dulliau newydd o gynyddu cyfradd trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu. Mae'r polisi drafft hwn yn canolbwyntio ar:

- Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol o'r polisi hwn erbyn diwedd 2020.

Cynllun cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant ac i ddewis gofal plant ac addysg Gymraeg yw Cymraeg i Blant. Yn 2019-20, fel rhan o'r cydweithio rhwng y rhaglen a GIG Cymru, sefydlwyd grwpiau Cymraeg i Blant ar y cyd ag ymwelwyr iechyd. Cynhaliwyd digwyddiadau mewn clinigau er mwyn ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen. Mae gwybodaeth am Cymraeg i Blant yn parhau i gael ei phlethu i mewn i ddeunyddiau y mae rhieni newydd a darpar rieni ledled Cymru yn eu derbyn gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r negeseuon hyn hefyd yn cael eu rhannu gyda theulu pob plentyn a enir yng Nghymru drwy gasgliad o ddeunyddiau sy'n cynnwys Cofnod Personol y Plentyn.

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol o werthusiad proses rhaglen Cymraeg i Blant gan Adran Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ym mis Chwefror 2019.[4] Nod yr adroddiad oedd mynd ati i ddatblygu'r ffyrdd y mae'r rhaglen hon yn cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref,

---

[2] https://llyw.cymru/trosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd
[3] https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-ar-drosglwyddor-gymraeg-ai-defnydd-mewn-teuluoedd
[4] https://llyw.cymru/gwerthusiad-proses-or-rhaglen-cymraeg-i-blant-adroddiad-terfynol

trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Mae argymhellion y gwerthusiad wedi eu rhoi ar waith wrth i'r rhaglen gael ei datblygu ymhellach o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae hyn wedi cynnwys ailedrych ar waith y rhaglen yng nghyd-destun y theori newid a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad. Mae hyn wedi'n caniatáu ni i ailedrych ar y cysylltiadau rhwng y gefnogaeth y mae'r rhaglen yn ei chynnig, allbynnau'r gefnogaeth hon, a nodau hirdymor y rhaglen.

## 2. Y blynyddoedd cynnar

Ein nod yw ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith i greu 40 grŵp meithrin cyfrwng Cymraeg newydd erbyn 2021, a hynny er mwyn bod â 150 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2027-28.


Rydym yn falch o fod wedi gallu parhau gyda'r buddsoddiad ychwanegol o £1m yng ngwaith y Mudiad Meithrin yn ystod 2019-20. Drwy hyn, roedd modd i'r Mudiad ehangu'r gefnogaeth i'w aelodau er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Llwyddodd y Mudiad Meithrin i sefydlu Cylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd â diffyg darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn sgil ein buddsoddiad ychwanegol, gyda 13 Cylch Meithrin newydd yn cael ei sefydlu'n ystod 2019-20. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos ein bod ar y llwybr cywir i gyrraedd y nod o sefydlu 40 grŵp meithrin newydd erbyn 2021.

Yn 2018-19, darparwyd cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu capasiti cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector gofal plant, gan adeiladu ar y gefnogaeth y mae Cwlwm (consortiwm o bum sefydliad ym meysydd gofal plant a chwarae), yn ei gynnig i'w aelodau er mwyn ehangu gwasanaethau a sicrhau eu bod yn hunangynhaliol.


Er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg, drwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), parhawyd i gydweithio gydag awdurdodau a darparwyr lleol i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar. Casglwyd gwybodaeth gynhwysfawr gan Mudiad Meithrin am nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin a'u taith ymlaen i addysg statudol, fel rhan o'u prosesau data. Rhannwyd yr wybodaeth hon gydag awdurdodau lleol er mwyn bwydo i mewn i'w prosesau cynllunio.

Mae nifer y plant a fynychodd Gylchoedd Meithrin, a chanran y rheiny sydd wedyn yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf – gweler Siart 2a a 2b isod. Mae COVID-19 wedi arwain at oedi gyda threfniadau casglu data y Cylchoedd Meithrin yn ystod haf 2020 sy'n golygu nad yw ffigurau cyfatebol ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20 ar gael eto. Bydd y data hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siart 2a: Nifer y plant sydd wedi mynychu Cylchoedd Meithrin**




**Siart 2b: Canran y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg**




Ers Ebrill 2019, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi dod i rym ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd cyfanswm o 15,929 o blant yn elwa o'r Cynnig ym mis Gorffennaf 2019, gyda 29% o'r rheiny'n cael mynediad ato mewn lleoliadau cyfrwng-Cymraeg neu ddwyieithog. Mae data Ionawr 2020 yn dangos fod tua 14,600 o blant yn elwa o'r cynllun, gyda tua 29% eto yn cael mynediad at y Cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Cynhaliwyd gwaith i fonitro gwybodaeth am ddefnydd teuluoedd o wasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Cynnig, ac o ganlyniad, aeth awdurdodau lleol ati i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r dewisiadau iaith sydd ar gael iddynt wrth ddewis gofal plant. Mae awdurdodau lleol wedi parhau i dderbyn grant fel rhan o grant Plant a

Chymunedau Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd.

Comisiynwyd gwaith ymchwil gennym yn ystod 2019-20 i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni i beidio â manteisio ar ofal plant a ariennir gennym ni. Roedd hwn hefyd yn edrych ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni ynghylch darpariaeth gofal plant Cymraeg a dwyieithog, a'r rhwystrau posibl sy'n eu hatal rhag manteisio ar ddarpariaeth o'r fath. Disgwylir i ganfyddiadau'r ymchwil hwn gael eu cyhoeddi yn ystod 2020-21.

Rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i weithredu prosiectau gwerth £35.8m i adnewyddu lleoliadau gofal plant a datblygu darpariaeth newydd. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n hymdrechion i ehangu argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Rydym hefyd wedi dyrannu £8.4m mewn grantiau cyfalaf bach i awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr gofal i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn y lleoliad, neu i wella eu cyfleusterau.

Ddiwedd Mawrth 2020, fe wnaethom ni ddechrau gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, consortiwm Cwlwm, a rhanddeiliaid allweddol eraill i geisio deall effaith COVID-19 ar y sector gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol 2020-21 er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig yn parhau i ymateb i heriau penodol y sector hwn.

Mae'r gwaith o gefnogi darparwyr gofal plant i gryfhau ac ymestyn eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi parhau.

Drwy ein gwaith gyda'r Mudiad Meithrin, rydym wedi:

- Gwella'r trefniadau i fesur defnydd teuluoedd o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a'i gyswllt â darpariaeth addysg statudol.
- Parhau i gydweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill er mwyn cynyddu cyfran y plant sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddol cynnar i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Gweithio ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) er mwyn parhau i ddatblygu rhaglen Clwb Cwtsh i roi cyfle i dros 500 o rieni, teuluoedd a gofalwyr plant ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio gyda phlant ifanc.
- Cynnig hyfforddiant i dros 1,600 o ymarferwyr a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus 'Academi'.
- Ymestyn cyrhaeddiad rhaglen hyfforddiant 'Croesi'r Bont', sy'n ffocysu ar gaffael iaith a throchi ac arfogi ymarferwyr â sgiliau arbenigol i'w defnyddio gyda phlant o gartrefi di-Gymraeg.
- Sefydlu 13 Cylch Meithrin a 14 Cylch Ti a Fi newydd mewn ardaloedd o Gymru lle mae prinder darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Drwy gydweithio gyda chonsortiwm Cwlwm dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd cyfleoedd i ymarferwyr mewn lleoliadau gofal plant ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w

defnyddio wrth eu gwaith, a hynny drwy raglen ‘Camau’ y Ganolfan. Mae’r gwaith hwn wedi rhoi cyfle i dros 650 o ymarferwyr gael hyfforddiant wedi ei deilwra i anghenion y sector gofal plant a chwarae.

Roedd y blynyddoedd cynnar hefyd yn rhan o’r gwaith i roi’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ar sylfaen fwy cadarn. Yn hyn o beth, roedd cryfhau’r cyswllt rhwng cynllunio addysg statudol a’r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi ei blethu i mewn i’r gwaith o ddatblygu’r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a’r canllawiau cysylltiedig.

## 3. Addysg statudol


Cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*[5] ym mis Rhagfyr 2017. Dyma’n polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol. Mae’r cynllun yn nodi sut fydd y system addysg yn cyfrannu at ein nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod targedau ar gyfer y maes addysg, ac mae *Y Gymraeg Mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017 i 2021* yn defnyddio dangosyddion i fonitro ein cynnydd yn erbyn y targedau hynny. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y targedau a’r dangosyddion ill dau yn yr adran hon.

Un o brif dargedau *Cymraeg 2050* yw gweld cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy’n gadael ysgol sy’n gallu siarad Cymraeg, gyda tharged o 70% o ddysgwyr yn gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 33% o ddysgwyr 16-17 oed yn gallu siarad Cymraeg – dyma’n gwaelodlin felly.

Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy’n sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith (cwrs llawn) ers 2008/09, fel y gwelir yn Siart 3.

**Siart 3: Canran dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)**




[5] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf

Mae Siart 3 yn dangos fod 86% o ddysgwyr wedi'u cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith erbyn 2019/20. Mae hyn wedi cynyddu dros y degawd diwethaf o 70% yn 2008/09.

Mae'r siart hefyd yn dangos fod gostyngiad wedi bod yn y ganran a oedd yn sefyll y cwrs byr ail iaith rhwng 2012/13 a 2017/18. Diddymwyd hwn ym mis Medi 2018, ac ers hynny, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y ganran sy'n cofrestru i sefyll TGAU Cymraeg ail iaith (cwrs llawn). (Roedd y 2% a gafodd TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr yn 2018/19 wedi sefyll yr arholiad ar ddiwedd Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol).

## Y Gymraeg yn y cwricwlwm newydd

Cyhoeddwyd drafft o *Cwricwlwm i Gymru* ym mis Ebrill 2019 er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno adborth. Yn sgil yr adborth a ddaeth i law, mireiniwyd y cwricwlwm rhwng mis Medi a Rhagfyr 2019 a chyhoeddwyd y fersiwn derfynol, *Cwricwlwm i Gymru*[6] ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Gymraeg bellach yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu y cwricwlwm newydd. Bydd y Gymraeg yn parhau'n bwnc gorfodol i bob dysgwr 3-16 oed, gan gynnig hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg.

Mae cynnydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn seiliedig ar gysyniad o gontinwwm dysgu. O ran y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod pob disgybl yn datblygu o fod yn ddi-iaith, neu gyda dim ond ychydig iaith, ac yn gwneud cynnydd tuag at fod yn ddysgwr hyderus a llwyddiannus.

Gan weithredu ar argymhellion yr Athro Sioned Davies i gael gwared ar "Gymraeg ail iaith", bydd pob disgybl yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm. Ni fydd wedi'i wahanu yn y dyfodol yn rhaglenni astudio iaith gyntaf ac ail iaith, gan sicrhau y bydd gan bob plentyn 3-16 oed yr un lefel o brofiad yn yr iaith. At hynny, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r iaith.

Mae Cymwysterau Cymru wedi ymgynghori ar yr egwyddorion lefel uchel ar gyfer y cymwysterau a fydd yn deillio o'r cwricwlwm newydd, gydag ymgynghoriadau mwy penodol i ddilyn – bydd hynny'n cynnwys ymgynghori ar gymwysterau Cymraeg.

## Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ym mis Mai 2018, dan gadeiryddiaeth Aled Roberts.

Blaenoriaeth y Bwrdd Cynghori oedd cynnig cyngor i ni ar newidiadau i gryfhau'r fframwaith gynllunio i ehangu darpariaeth addysg Gymraeg trwy'r CSCA.

[6] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Daeth swyddogaeth y Bwrdd Cynghori i ben yn ffurfiol ym mis Mawrth 2019. Cyflwynwyd adroddiad gydag argymhellion i'r Gweinidog Addysg, *Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg*[7], ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mai 2019.

Rydym wedi bod yn gweithredu argymhellion y Bwrdd Cynghori yn ystod 2019/20, gyda'r gwaith hwnnw'n cynnwys paratoi, ymgynghori a gwneud rheoliadau newydd ar gyfer y CSCA sy'n gosod disgwyliadau uwch ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg gan awdurdodau lleol.

Yn ogystal, comisiynwyd gwaith ymchwil i adolygu'r broses o gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng y dysgu ac a addysgu. Penodwyd Meirion Prys Jones i gydlynu panel o arbenigwyr addysgol ac ieithyddol a oedd yn cynnwys yr Athro Colin Baker, i edrych ar y modd caiff y polisi categoreiddio ei weithredu ar hyn o bryd.

**Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad terfynol y Bwrdd Cynghori, aethpwyd ati i fireinio *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013* . Yn dilyn cyfnod ymgynghori ar gynigion newydd y rheoliadau drafft (rhwng 30 Mai a 13 Medi 2019), cyhoeddwyd ymateb i'r ymgynghoriad ar 7 Tachwedd 2019.

Wedi hyn, cafodd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019[8] eu gosod ar 5 Rhagfyr gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2020. Ceir newid pwyslais ynddynt er mwyn cynllunio'n gynnar i gefnogi ymgyrch *Cymraeg 2050* i yrru twf mewn plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Newid arall a gyflwynir yn y rheoliadau yw'r pwyslais ar gryfhau partneriaethau. Mae hyn yn cydnabod na ellir gweithredu cynlluniau CSCA heb gefnogaeth neu arbenigedd lleol a rhanbarthol. Cyflwynir canllawiau ar gydweithio a gweithredu drwy Fforymau Cynllunio Addysg Gymraeg yr awdurdodau lleol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd lleol.

**Cyllid cyfalaf**

Mae darparu cyllid cyfalaf yn ffordd effeithiol o greu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynllunio uchelgeisiol, a phennu targedau cyraeddadwy ond realistig, gan wneud y mwyaf hefyd o'r adnoddau sydd eisoes gennym.

Bydd y prosiectau cyfalaf sydd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg Gymraeg ledled Cymru. Bydd y prosiectau hyn hefyd yn hybu'r iaith Gymraeg yn lleol.

Diolch i gyllid cyfalaf, dyrannwyd £30m yn ychwanegol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a £15m i leoliadau blynyddoedd cynnar i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd y prosiectau'n amrywio o ehangu darpariaeth er enghraifft mewn ysgolion i agor ysgolion neu ganolfannau trochi newydd.

[7] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg.pdf
[8] https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld12909/sub-ld12909%20-w.pdf

Bydd ysgolion cynradd newydd yn cael eu sefydlu yn siroedd Blaenau Gwent, Mynwy, Merthyr, Casnewydd, Torfaen, Penfro ac Abertawe. Mae gwaith cynllunio a datblygiadau ystyrlon eisoes ar waith yn siroedd Blaenau Gwent, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Torfaen a Wrecsam. Mae rhai o bigion y cynllun yn cynnwys cwblhau estyniad yn Ysgol y Wern, Caerdydd, dechrau ar y broses o sefydlu ysgol gynradd newydd ym Mhilgwenlli, Casnewydd ac agor canolfan drochi newydd yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy.

Yn ystod 2019, dyrannwyd arian cyfalaf i'r Urdd, ac o'r herwydd, mae gwaith wedi dechrau i adnewyddu ac uwchraddio'r gwersylloedd. Nod y prosiect yw gwella'r cyfleusterau a'r adnoddau sydd ar gael yn y gwersylloedd er mwyn creu gofod diogel i arloesi gan gynnig cyfoeth o brofiadau a gweithgareddau i ddysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth draddodiadol mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw.

Cafodd y gwaith o adnewyddu a datblygu gwersyll Glan-llyn ei gwblhau ym mis Hydref 2020. Bydd y datblygiad hwn yn creu llety hunan-ddarpar cyntaf yr Urdd ac yn cynnig profiadau i grwpiau llai allu mwynhau holl weithgareddau'r gwersyll mewn awyrgylch cyfoes. Mae'r gwaith ar brosiect Calon y Gwersyll, Llangrannog wedi cychwyn ers mis Ionawr 2020, ac mae'n debygol o gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021.

**Categoreiddio ysgolion**

Yn ogystal â'r gwaith i ddiwygio'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, bu'r Bwrdd Cynghori CSCA yn ystyried argymhelliad yr Adolygiad Brys o ran adolygu diffiniadau ysgolion a'r categorïau sy'n bodoli ar gyfer ysgolion sy'n darparu gwahanol raddau o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Amlygodd gwaith y Bwrdd Cynghori yr angen i adolygu'r diffiniadau presennol a chategorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl eu natur ieithyddol a darpariaeth iaith fel bod ysgolion mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r cwricwlwm newydd.

Mewn ymateb i hyn, comisiynodd y Gweinidog Addysg adolygiad o'r diffiniadau cyfredol a'r categorïau o ysgolion yng Nghymru yn ystod 2019. Daeth yr adolygiad i ben ym mis Rhagfyr 2019 gydag adroddiad wedi'i gyflwyno'n crynhoi'r sefyllfa bresennol ac yn cynnig opsiynau i gryfhau'r trefniadau yn y dyfodol.

Ein nod yw cynnig gwell eglurder i awdurdodau lleol, i ysgolion ac, yn bwysicaf oll, i rieni o ran natur y ddarpariaeth addysg Gymraeg sydd ar gael mewn siroedd unigol ac mewn ysgolion unigol.

Cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu yn Llandudno a Chaerfyrddin ar 3 a 6 Chwefror 2020, i gyflwyno'r gwaith a wnaed yn ystod yr adolygiad a chyflwyno model o gategorïau o ysgolion drafft i'w ystyried a'i drafod. Mynychwyd y sesiynau hyn gan swyddogion awdurdodau lleol, penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg).


Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu canllaw yn cyflwyno'r newidiadau arfaethedig, gyda'r nod o ymgynghori arno cyn diwedd 2020.

## Cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg

Un o dargedau *Cymraeg 2050* yw cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% o ddysgwyr saith oed yn 2015/16 i 24% erbyn 2021, er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 40% erbyn 2050. Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio asesiadau athrawon i adrodd ar ganran y dysgwyr saith oed a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf.

Eleni, oherwydd COVID-19, nid yw asesiadau athrawon yn cael eu casglu. Rydym felly yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae Siart 4 yn cynnwys y ddwy ffynhonnell er mwyn dangos pa mor agos y maent yn alinio, ac i ddangos ein cynnydd yn erbyn y targed hwn.

**Siart 4: Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf**




Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion, roedd 23.1% o ddysgwyr saith oed yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Mae'r ganran hon wedi aros yn eithaf cyson, yn amrywio rhwng 22% a 23% ers 2011/12.


Fel y nodir uchod, y targed yw cynyddu canran y dysgwyr saith oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 24% erbyn 2021. Mae data Cyfrifiad Ysgolion ar gyfer Blwyddyn 1, 2020 yn awgrymu y bydd 23.3% ym Mlwyddyn 2 erbyn 2021.

Ers cyflwyno *Cymraeg 2050*, gellir dweud ein bod wedi newid gêr o ran ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r arwyddion cynnar yn rhai cadarnhaol. Yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr saith oed sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, er nad yw'r siart yn dangos cynnydd sylweddol yn y ganran. Yn 2011/12 roedd 7,200 o ddysgwyr saith oed yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, gydag 8,000 erbyn 2019/20.

Nid yw'r cynnydd hwn wedi'i adlewyrchu yr y canrannau gan y bu cynnydd cyffredinol hefyd yn y niferoedd o ddysgwyr saith oed dros y blynyddoedd diwethaf.


Un o dargedau eraill cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg* yw cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) o 17.9% yn 2016/17 i 21% erbyn 2021. Unwaith eto, yn y gorffennol rydym wedi defnyddio asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (diwedd yr ysgol gynradd) ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9 yr ysgol uwchradd) i fonitro hyn. Gan nad oes asesiadau athrawon ar gael eleni, rydym felly yn defnyddio canran y dysgwyr lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt fel iaith gyntaf, gan ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Fel ag yn achos Siart 4, mae Siart 5 hefyd yn cynnwys y ddwy ffynhonnell ochr yn ochr er mwyn dangos pa mor agos y maent yn alinio.

**Siart 5: Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, yn ôl blwyddyn academaidd**




Mae Siart 5 yn dangos, yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, bod 21.5% o ddysgwyr ar ddiwedd ysgol gynradd a 19.2% o ddysgwyr Blwyddyn 9 mewn ysgol uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r canrannau hyn wedi cynyddu ychydig ers 2012. Ond mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 3 yn parhau i fod yn is na'r ganran yng Nghyfnod Allweddol 2 dair mlynedd ynghynt. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol, fel Ceredigion ac Ynys Môn, wedi gweld cynnydd yng nghyfradd y dysgwyr sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf.

**Siart 6: Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau neu pump cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg**




Mae Siart 6 yn dangos bod 87.8% o ddysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2018/19 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cynyddu ychydig ers 2013/14 ac yn ymddangos fel pe bai wedi cyrraedd y targed o 86.0% erbyn 2021.

Roedd 75.3% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2018/19 hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu cryn dipyn ers 2015/16, ac wedi hen gyrraedd y targed o 65% erbyn 2021.

Rydym yn parhau i weithio i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith ymchwil wedi'i gynnal a byddwn yn ymgynghori ar bolisi newydd i gefnogi categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng y dysgu.

Mae rheoliadau newydd ar gyfer y CSCA yn gosod trefniadau newydd, mwy uchelgeisiol i awdurdodau lleol eu dilyn. Bellach, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol fabwysiadau targedau 10 mlynedd, a fydd yn dangos beth fydd cyfraniad pob awdurdod i dargedau *Cymraeg 2050*. Er mwyn i rai siroedd gyrraedd eu targedau CSCA, bydd gofyn iddynt roi ystyriaeth i gynyddu cyfran y dysgu ac addysgu sy'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ysgolion.

Yn ystod trafodaethau'r Bwrdd Cynghori CSCA, daeth i'r amlwg bod gofyn rhoi sylw i'r angen i gynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Argymhellwyd y dylem geisio darlun mwy eglur o safbwynt athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan osod targedau penodol ac uchelgeisiol i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol o ran recriwtio hyfforddeion sy'n medru'r Gymraeg.

Nodwyd hefyd yr angen i gynllunio'n fwy pwrpasol gyda sefydliadau addysg uwch, consortia addysg lleol ac awdurdodau lleol. Mae'r cydweithio gydag adrannau perthnasol yn y Llywodraeth yn mynd rhagddo, a chamau ar waith i ddenu athrawon,

gwella'u sgiliau a'u cefnogi, ac i gynllunio'r gweithlu'n bwrpasol er mwyn symud tuag at y targedau. Gweler Siart 10 a manylion llawn y gwaith sy'n digwydd yn y maes hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Wrth reswm, bydd y camau hyn yn cymryd rhywfaint o amser i ddwyn ffrwyth, ond maent yn rhan o'r ffocws ar osod y sylfeini yn ystod cyfnod cyntaf strategaeth *Cymraeg 2050*, sef y Rhaglen Waith hon.

**Hwyrddyfodiaid**

Y nod yw cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid.

Mae darparu cyfleoedd trochi hwyr ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd yn parhau i gael ei nodi yng Nghynlluniau CSCA yr awdurdodau lleol. A thrwy'r rheoliadau newydd, bydd darpariaeth a chyfleoedd trochi a'u datblygiad yn cael lle amlycach ar lefel sirol a chenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau i gryfhau'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer hwyrddyfodiaid ac yn monitro'r maes hwn yn ofalus yn ystod 2020-21 yng nghyd-destun COVID-19 a'r posibilrwydd y bydd cynnydd sylweddol yn niferoedd yr hwyrddyfodiaid.

**Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein hymgyrchoedd i gefnogi'r llwybr i addysg Gymraeg yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Rydym wedi cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i rieni a darpar-rieni. Mae is-bwyllgorau cyfathrebu a marchnata, sydd wedi'u sefydlu gan rai awdurdodau lleol, wedi helpu i wella'r wybodaeth hon gan sicrhau ei bod yn estyn ar draws gwaith yr awdurdod lleol, yn ogystal â phartneriaid eraill yn lleol ac yn genedlaethol.

Rhoddwyd cefnogaeth ddwys i ddwy sir yn ystod 2019/20, a'r bwriad yw cynnig cymorth tebyg i eraill maes o law. Byddwn yn ystyried dulliau o deilwra'r gefnogaeth at anghenion siroedd unigol, a gall hynny gynnwys cyfleoedd i weithio gydag arbenigwyr cynllunio ieithyddol ac addysg allanol, neu dderbyn cefnogaeth uniongyrchol gan y Llywodraeth.

Mae'r Rheoliadau sy'n amlinellu'r trefniadau newydd ar gyfer y CSCA bellach mewn grym. Yn anffodus, gorfu i ni ohirio ein cynhadledd a oedd i'w chynnal fis Mawrth oherwydd COVID-19 ond caiff ei haildrefnu yn y dyfodol. Roedd Prif Weithredwr Mudiad Meithrin wedi ei gwahodd i drafod rôl y Mudiad fel y pwynt cyswllt cyntaf i rieni sy'n ystyried addysg Gymraeg i'w plant, a'u gwaith yn cyflwyno sgiliau iaith cynnar i blant cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol.


## 4. Addysg ôl-orfodol

Yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn cwympo'n sylweddol ar ôl 16 oed. Mae ystod o ffactorau cymdeithasol cymhleth yn dylanwadu ar bobl ifanc, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac astudio ôl-16, gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol), iaith y cartref a chyfleoedd am gyflogaeth.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod yna ddigon o gyfleoedd i bobl ifanc siarad Cymraeg. Byddai lleihau'r cwymp ôl-16 hwn fymryn yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr ynghynt.

Rydym ni hefyd eisiau gweld mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch. Mae hyn yn un o dargedau eraill cynllun gweithredu *Y Gymraeg mewn Addysg*. Rydym yn monitro hyn drwy edrych ar faint o ddysgwyr sydd wedi cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch fel canran o'r rhai a wnaeth gofrestru i wneud TGAU Cymraeg ddwy flynedd yn gynt.


**Siart 7a: Cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg TGAU ddwy flynedd yn gynharach – iaith gyntaf ac ail iaith**




Mae Siart 7a uchod yn dangos erbyn y flwyddyn academaidd 2018/19 bod 4.3% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch iaith gyntaf. Mae'n dangos hefyd bod 1.0% o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch ail iaith.

Mae'r ganran o'r rhai wnaeth gofrestru i wneud TGAU Cymraeg, sy'n cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) wedi disgyn dros y degawd. Un o'r rhesymau am y gostyngiad yw'r cynnydd yn y canran sy'n gwneud TGAU Cymraeg (fel gwelir yn Siart 3). Mae Siart 7b, yn dangos yr un wybodaeth, gan ddefnyddio niferoedd sy'n cofrestru i wneud Cymraeg Safon Uwch yn hytrach na chanran o'r cofrestriadau TGAU ddwy flynedd yn gynt. Dyma'r data diweddaraf sydd gennym ni adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

**Siart 7b: Nifer o'r cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch – iaith gyntaf ac ail iaith**





Fel y gwelir yn Siart 7b, mae'n ymddangos nad yw'r cynnydd yn y ganran sy'n sefyll TGAU Cymraeg (gweler Siart 3) yn trosglwyddo i'r nifer sy'n dilyn Safon Uwch Cymraeg. Dyma'r data diweddaraf sydd gennym ni adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Mae *Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017 i 2021* yn cynnwys amcan penodol i gynyddu'r nifer sy'n sefyll Cymraeg fel Safon Uwch. Mae grŵp o randdeiliaid sy'n cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru, CBAC, adrannau Cymraeg y prifysgolion, yr Urdd, y consortia addysg rhanbarthol ac athrawon wedi'i sefydlu i symud y gwaith yn ei flaen.

Yn ystod 2019-20, fe wnaethom ddyfarnu £145,000 i gefnogi'r gwaith hwn. Derbyniodd 62 o ysgolion a cholegau grantiau rhwng £800 a £1,500 yr un, i gefnogi gweithgareddau i wella profiadau dysgwyr o astudio'r Gymraeg ac i gefnogi costau cynnal y ddarpariaeth mewn lleoliadau lle roedd nifer y dysgwyr yn astudio'r pwnc yn isel. Datblygwyd adnoddau i ysgolion eu defnyddio mewn nosweithiau rhieni i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch, ac rydym wrthi'n datblygu ymgyrch farchnata a gaiff ei lansio ym mis Tachwedd 2020.

Rydym hefyd yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach ac mae Siart 8 isod yn dangos y cynnydd hwn yn ôl y math o ddarparwr.

**Siart 8: Canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr**




*Pe byddai dau sefydliad wedi cofnodi data yn gywir yn 2016/17, byddai'r cofnod yn 7.6%.

Fel y gwelir yn Siart 8, mae canran y gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgolion, sefydliadau addysg bellach a'r darparwyr hyfforddiant wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Dyma'r data diweddaraf sydd gennym ni adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Y bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

Ers cyhoeddi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg*[9] y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Rhagfyr 2018), mae'r Coleg wedi sefydlu prosiectau strategol gyda chwe choleg gan edrych ar Iechyd a Gofal, Gofal Blynyddoedd Cynnar a Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer y ddarpariaeth. Yn ystod 2019-20, fe wnaethom fuddsoddi £150,000 mewn prosiectau strategol, a chyda'r cyfraniadau gan y colegau, cynyddodd y buddsoddiad hwn i £270,000. O ganlyniad i hyn, cyflogwyd tiwtoriaid ychwanegol, sefydlwyd grwpiau pynciol ar draws y colegau, datblygwyd adnoddau dosbarth a rhannwyd arfer dda rhwng y sefydliadau.

Comisiynwyd adnoddau gyda chyfraniad o £71,500 mewn:

- Gwasanaethau Cyhoeddus – dau ap: un i gefnogi dysgwyr i fod yn hyderus mewn sefyllfaoedd proffesiynol a'r ail i gynorthwyo gydag ynganiad y Gymraeg.
- Busnes Lefel 2 a 3 – unedau ar ymchwil busnes a datblygu ymgyrchoedd marchnata.
- Chwaraeon Lefel 2 a 3 – cyfieithiad o 30 uned rhyngweithiol y Blended Learning Consortium (BLC).

---

[9] http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/addysgbellachaphrentisiaethau/cymraeg2050/

Mae'r cyfan bellach ar gael ar Hwb ac ar wefan Porth Adnoddau'r Coleg. Mae gwneud yn siŵr bod yna adnoddau priodol a chymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael yn allweddol i dwf y ddarpariaeth. Fel rhan o Gynllun Gweithredu Ôl-16 y Coleg, mae'n cydweithio gyda Cymwysterau Cymru i gytuno ar flaenoriaethau i gefnogi cyrff dyfarnu lle gallant ymgeisio am grant i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Mae adnodd rhyngweithiol i'r sector Prentisiaethau, Prentis-iaith, wedi bod yn hynod lwyddiannus lle mae prentisiaid sydd heb sgiliau Cymraeg neu ychydig o'r iaith, yn gwella eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd gwasanaeth cwsmer. Mae nifer o ddarparwyr prentisiaethau wedi ymgorffori Prentis-iaith yn eu rhaglenni sefydlu ac mae galw am lefelau ychwanegol i gynyddu sgiliau'r prentisiaid ymhellach. Bydd pedwar llwybr galwedigaethol penodol sef: iechyd, gofal plant, amaethyddiaeth, ac adeiladwaith, yn darparu geirfa addas yn eu meysydd i'r prentisiaid.

Penodwyd 42 Llysgennad wrth i raglen Llysgenhadon y Coleg gael ei ymestyn i'r sector ôl-16. Roedd 36 ohonynt yn y colegau a chwech gyda darparwyr hyfforddiant. Maent yn gyfrifol am gefnogi ac annog eu cyd-ddysgwyr i siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod yr Wythnos Prentisiaethau (3-7 Chwefror 2020), meddiannodd y Llysgenhadon gyfrif Instagram y Coleg ac fe arweiniodd yr '*instatakeover'* at fil o drawiadau gan y bobl ifanc ar gyfrif @DyDdyfodolDi gyda chyfartaledd o 450 o argraffiadau i bob neges.

Sefydlodd y Coleg Grŵp Strategol Ôl-16 i gynghori a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu. Mae aelodau'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolydd strategol o bob coleg addysg bellach a phrif gontractwyr prentisiaethau, ColegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sy'n cydlynu a chasglu gwybodaeth am anghenion sgiliau cyflogwyr.

Mae hyfforddiant i diwtoriaid yn allweddol wrth ehangu darpariaeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd dros 519 o diwtoriaid a staff eu hyfforddi mewn 24 o sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae hyfforddiant Sgiliaith yn addas ar gyfer pob gallu – o newydd-ddyfodiaid, i ddysgu dwyieithog, i'r profiadol iawn sy'n medru cael achrediad mewn MA Methodoleg Addysgu Dwyieithog. Drwy'r ddarpariaeth eang a'r mentora a gynigir, mae nifer y tiwtoriaid a all gynnwys y Gymraeg yn eu dysgu, ac aseswyr a all gefnogi eu prentisiaid i gwblhau eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn cynyddu'n flynyddol. Mae'r seilwaith yn sefydlogi a'r ddarpariaeth yn gwreiddio'n ddyfnach yn y sefydliadau.

Derbyniodd yr Urdd fuddsoddiad dros dair blynedd i ddatblygu seilwaith ar gyfer darparu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn chwaraeon ac arweinwyr ieuenctid. Sefydlwyd adran brentisiaethau ac o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, tyfodd y tîm craidd o un swyddog i chwe swyddog cymwysedig cyfrwng Cymraeg. Dros y tair blynedd, cwblhaodd 102 o brentisiaid eu hyfforddiant ar Lefel 2 a 3. O'r rhain roedd 18 prentis chwaraeon allanol yn gweithio fel cynorthwywyr dosbarth mewn ysgolion cynradd, yn bennaf yn Ardal Tasglu Cymoedd y De, ac yn datblygu eu harbenigedd i arwain gweithgareddau amrywiol yn Gymraeg gyda'r disgyblion. Yn sgil ein buddsoddiad, mae'r hyfforddi yn mynd o nerth i nerth gydag o leiaf 70 prentis yn parhau ar eu hyfforddiant, 38 yn allanol mewn ysgolion cynradd a 32 yn fewnol yng nghanolfannau'r Urdd. Y bwriad yw ymestyn ymhellach i faes Gofal Blynyddoedd

Cynnar i ddiwallu'r angen am weithlu cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau gofal plant. Caiff y gwaith hwn ei wneud mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r Gangen Cynllunio a Chyllido Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant alwedigaethol ddwyieithog sydd ar gael a hynny er mwyn ceisio cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n manteisio arni. Gosodir blaenoriaethau sectorol ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ac yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pedwar llwybr galwedigaethol penodol sef: iechyd, gofal plant, amaethyddiaeth, ac adeiladwaith, yn darparu geirfa addas yn eu meysydd i'r prentisiaid.

**Addysg uwch**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda phrifysgolion ledled Cymru i ddatblygu modiwlau a chyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd nad oedd ar gael cyn ei sefydlu. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Coleg wedi cefnogi'r ddarpariaeth ar y cyd â'r prifysgolion yn hytrach nag ariannu swyddi darlithwyr gan wreiddio'r ddarpariaeth fel rhan annatod o arlwy'r sefydliadau hynny. Cynigir ysgoloriaethau llawn a chymhelliant i alluogi israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau a modiwlau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhennir y gwaith i dri chategori, sef:

- Cynyddu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg y prifysgolion, gan greu dilyniant ieithyddol mewn ystod eang iawn o feysydd.
- Cefnogi gweithgareddau craidd sy'n cynnwys cynllunio academaidd a hyfforddiant staff, hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg, cefnogi ymchwil, ynghyd â darparu'r dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg i fyfyrwyr.
- Cynnal cynllun ysgoloriaethau sy'n cynnig cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n cwblhau rhywfaint neu'r cwbl o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers sefydlu'r Coleg yn 2011, mae 26 o'r prif grwpiau pwnc ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n gynnydd o 14 maes mewn cyfnod o wyth mlynedd gyda darpariaeth newydd wedi ei sefydlu mewn Meddygaeth ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, roedd 75 myfyriwr yn astudio rhan o'u cwrs Meddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r mwyafrif ohonynt yn astudio o leiaf 40 credyd. Ddegawd ynghynt, dim ond 10 oedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd darpariaeth Astudiaethau Busnes cyfrwng Cymraeg newydd ei datblygu am y tro cyntaf yn 2019/20 a dewisodd dros 100 i astudio rhan o'u cwrs Busnes yn Gymraeg, gyda'r mwyafrif ohonynt yn astudio o leiaf 40 credyd ym Mhrifysgolion Metropolitan Caerdydd, Aberystwyth, De Cymru, Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ym Mhrifysgol Bangor, roedd 80 o fyfyrwyr israddedig yn astudio rhan o'u cwrs Seicoleg yn Gymraeg.


Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg wedi cynyddu 49% rhwng 2011/12 a 2018/19.

Dosbarthwyd 33 Grant Pynciol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i brifysgolion er mwyn cefnogi darpariaeth addysg uwch mewn 24 maes. Dosbarthwyd pedwar Grant

Sbarduno er mwyn sefydlu darpariaeth addysg uwch newydd yn 2018/19 ym meysydd Deintyddiaeth, Seicoleg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ac Astudiaethau Crefyddol.

Darparwyd grantiau hefyd i gefnogi gweithgareddau cydweithredol er mwyn datblygu modiwlau penodol, cynnal cyrsiau haf, gweithdai a chynadleddau pynciol

**Siart 9: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg**




*Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA*

O'r 5,575 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf pump o gredydau yn Gymraeg, astudiodd 2,510 ohonynt o leiaf 40 credyd yn Gymraeg – cynnydd o 100 cofrestriad ers 2017/18. Astudiodd 1,340 o fyfyrwyr o leiaf 80 credyd yn Gymraeg – cynnydd o 40 cofrestriad ers 2017/8. Hefyd, astudiodd 710 o fyfyrwyr 120 o gredydau yn Gymraeg yn ystod cyfnod pan oedd 265 yn llai o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 2017/18. Er bod gostyngiad o 265 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u haddysg yn Gymraeg o gymharu â 2017/18, roedd y gostyngiad hwn wedi'i gyfyngu i'r rheiny a oedd yn gwneud llai na phum credyd.

Dyma'r data diweddaraf sydd gennym, a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*.

## Dysgu Cymraeg

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) yn 2016 er mwyn cydlynu darpariaeth a chynnig arweiniad i'r maes dysgu Cymraeg. Creu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau newydd yw nod y Ganolfan, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Roedd 2019-20 yn flwyddyn lwyddiannus i'r Ganolfan gyda chynnydd yn niferoedd y dysgwyr ac yn y cyfleoedd dysgu. Cyhoeddodd y Ganolfan set o ddata cyflawn ar gyfer blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19 sy'n sefydlu gwaelodlin i ni allu mesur cyfraniad y sector tuag at gyrraedd targedau *Cymraeg 2050*. Dyma'r data diweddaraf sydd gennym, a'r bwriad yw cynnwys diweddariad pellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Cymraeg 2050*. Dangosodd y data bod gan y Ganolfan 13,260 o ddysgwyr unigryw yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 sy'n gynnydd o 5% o gymharu â 2017/18.

Mae'r data hefyd yn dangos:

- Bod y Ganolfan wedi darparu 20,330 o weithgareddau dysgu yn ystod 2018/19.
- Roedd 51% o ddysgwyr ar lefel Mynediad (dyma'r lefel gychwynnol i ddechreuwyr).
- Roedd 17% ar lefel Sylfaen a 32% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd).
- Roedd 79% o'r dysgwyr rhwng 16 a 64 oed.

O ganlyniad i COVID-19, daeth darpariaeth wyneb yn wyneb y Ganolfan i ben yn sydyn yn ystod mis Mawrth 2020, ond llwyddodd y Ganolfan a'i darparwyr i symud y ddarpariaeth gyfan i ar-lein erbyn diwedd y mis.

## 5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

### Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar

Mae rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus 'Academi' wedi cynnig hyfforddiant i dros 1,600 o aelodau staff a gwirfoddolwyr o Gylchoedd Meithrin ledled Cymru yn ystod 2019-20.


Rydym wedi parhau i ddatblygu rhaglen 'Croesi'r Bont', sy'n cyflwyno methodolegau trochi'r Gymraeg i ymarferwyr mewn Cylchoedd Meithrin.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi i sefydlu partneriaeth gyda'r Urdd i gynnig prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i weithwyr ym maes Gofal Plant.

Mae rhaglen hyfforddiant Mudiad Meithrin hefyd wedi galluogi ymarferwyr a darpar ymarferwyr i gymhwyso a gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Athrawon

### Siart 10: Nifer yr athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Mae Siart 10 yn dangos bod nifer yr athrawon cynradd (mewn coch) sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng ychydig ers 2015/16, ond bod nifer yr athrawon ysgol uwchradd (mewn glas) wedi aros yn gymharol gyson.

### Athrawon cynradd

Mae ychydig o brinder yn nifer yr athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg a recriwtiwyd yn erbyn targedau *Cymraeg 2050* ar gyfer cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg erbyn 2021. Mae cysylltiad rhwng nifer targed yr athrawon a recriwtir a'r nifer targed o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a amlinellir yn *Cymraeg 2050*. Mae'r gwaith ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 newydd wedi rhoi pwyslais ychwanegol ar y gofyniad i awdurdodau lleol nodi'r gweithlu sydd ei angen arnynt i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg:

- Roedd 2,789 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn academaidd 2019/20 o gymharu â'r targed yn *Cymraeg 2050* ar gyfer 2021 o 3,100, ac felly rydym yn brin o 311 (10.0%).
- Roedd pump o bobl yn hyfforddi fel athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg drwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig ym mlwyddyn academaidd 2019/20.
- Os bydd y niferoedd yn debyg yn ymgeisio ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) cynradd cyfrwng Cymraeg y flwyddyn nesaf, byddwn yn brin o tua 203 (6.5%) o athrawon cynradd yn erbyn targed 2021, heb ystyried trosiant staff.

## Athrawon uwchradd

Mae recriwtio athrawon uwchradd wedi bod yn fwy heriol:

- Yn 2019/20 roedd 2,339 o athrawon uwchradd yn addysgu yn Gymraeg o gymharu â'r targed o 2,800 ar gyfer 2021, sy'n ddiffyg o 500 (16.5%).
- Hyfforddwyd 11 o bobl fel athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig yn 2019/20.
- Os bydd y niferoedd yn debyg yn ymgeisio ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) uwchradd cyfrwng Cymraeg y flwyddyn nesaf, byddwn yn brin o tua 367 (13.1%) yn erbyn targed 2021, heb ystyried trosiant staff.

Fel sydd wedi'i amlinellu yn Siart 7b, mae *Cymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21* yn cynnwys targedau a chamau gweithredu i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg Lefel A (fel iaith gyntaf neu ail iaith), fel un ffordd o wneud yn siŵr bod yna gyflenwad digonol o athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg yn y dyfodol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i annog mwy o ddysgwyr i astudio Cymraeg Lefel A i gynyddu'r nifer sy'n parhau i astudio'r iaith ar lefel israddedig ac a all fynd ymlaen i addysg gychwynnol athrawon.

Mae recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn darparu cymhellion ariannol sylweddol i ddenu athrawon cyfrwng Cymraeg drwy ein cynllun *Iaith Athrawon Yfory* (gweler isod), sydd, gyda'n hymgyrchoedd marchnata pwrpasol, yn denu athrawon cyfrwng Cymraeg newydd. Rydym hefyd yn defnyddio nifer o ddulliau arloesol, gan gynnwys ein rhaglen bontio newydd ar gyfer athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg sydd am addysgu mewn ysgolion uwchradd.

Mae ffigurau diweddaraf UCAS (ym mis Awst 2020) yn dangos cynnydd o 19% yn nifer y ceisiadau myfyrwyr am leoedd hyfforddi i fod yn athrawon. Mae hyn yn galonogol, gan y byddem wedyn hefyd yn disgwyl cynnydd yn nifer y bobl sy'n hyfforddi i fod yn athrawon a fydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion

Yn 2018-19, cwblhawyd y gwaith paratoi ar gyfer cynnal Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, er mwyn gallu dysgu mwy am sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg.

Cynhaliwyd y Cyfrifiad Blynyddol cyntaf o'r Gweithlu Ysgolion ym mis Tachwedd 2019, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ar sgiliau Cymraeg y gweithlu a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddwyd data a gasglwyd o'r cyfrifiad cyntaf ar ein gwefan[10] ym mis Awst, ac roedd yn cynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd am allu'r gweithlu yn y Gymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith yng nghyd-destun eu haddysgu.

---

[10] https://llyw.cymru/canlyniadau-cyfrifiad-gweithlu-ysgolion-ym-mis-tachwedd-2019

Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd â'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynlluniau busnes ysgolion yr 21ain ganrif a chynigion trefniadaeth ysgolion yn darparu darlun mwy manwl a chyflawn o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni targedau *Cymraeg 2050*, a bydd yn ein helpu i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

**Rhaglenni hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon**

Nod arall yw sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon yn meithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg, gyda chyfleoedd i ddysgu'r iaith a datblygu'r sgiliau a fydd yn eu helpu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blwyddyn academaidd 2019/20 oedd y flwyddyn gyntaf pan oedd ein rhaglenni AGA newydd eu hachredu ar gael. Yn dilyn cyhoeddi *Addysgu Athrawon Yfory*[11], ac yn sgil y diwygiadau i AGA, mae'r meini prawf achredu newydd yn sicrhau bod darparu cyfleoedd datblygu mewn perthynas â'r Gymraeg yn elfen graidd o'n holl raglenni AGA.

Graddiodd y garfan gyntaf o athrawon dan hyfforddiant a ddilynodd y rhaglenni AGA newydd yr haf hwn, a chafodd pob un o leiaf 25 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg, gan asesu eu sgiliau Cymraeg yn erbyn un fframwaith cyffredin.

Y fframwaith hwn yw'r sail ar gyfer darparu rhaglen o hyfforddiant yn y Gymraeg drwy ddatblygu unigolion gydol eu gyrfa, ac mae'n mynd i'r afael ag argymhelliad a wnaed wrth werthuso darpariaeth cyfrwng Cymraeg rhaglenni AGA.

Bydd mentoriaid yn parhau i gael eu hariannu am flwyddyn bontio er mwyn sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael cefnogaeth ddigonol i wella'u sgiliau Cymraeg a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau iaith eu dysgwyr.

**Recriwtio a marchnata**

Er nad oes gennym dargedau penodol ar gyfer recriwtio unigolion sy'n siarad Cymraeg ar gyrsiau AGA, rydym wedi cyflwyno gofyniad i Bartneriaethau AGA weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r rhai sy'n cael eu recriwtio yn siarad Cymraeg.

Mae gennym ymgyrchoedd marchnata sy'n targedu myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn benodol ar gyfer AGA, yn ogystal â rhaglenni recriwtio mwy cyffredinol ar gyfer hyfforddi athrawon.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Phartneriaethau AGA a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu strategaethau recriwtio mwy cynaliadwy gyda'r nod o gynyddu lefelau'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a gaiff eu recriwtio.

Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd arloesol o annog siaradwyr Cymraeg i ddod yn athrawon, megis y cyrsiau pontio peilot o'r cynradd i'r uwchradd.

[11] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysgu-athrawon-yfory.pdf

## Iaith Athrawon Yfory

Mae cynllun cymhelliant AGA Iaith Athrawon Yfory, a lansiwyd ym mis Medi 2018, ar gael i athrawon cymwys dan hyfforddiant sy'n astudio i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y symiau sydd ar gael o dan y cynllun yw:

- £2,500 ar ôl dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ôl cwblhau rhaglen AGA ôl-radd uwchradd achrededig.
- £2,500 ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir neu addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £5,000 ac mae'n ychwanegol at gymhellion eraill sydd ar gael i athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg newydd cymwys.

## Y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn darparu hyfforddiant dwys i ddatblygu sgiliau Cymraeg a methodoleg dysgu iaith ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar draws Cymru.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, darparwyd 5 cwrs 'Cymraeg Mewn Blwyddyn' mewn 4 lleoliad ar draws Cymru, gyda 69 o gyfranogwyr. Yn ogystal, darparwyd cyrsiau ar ystod o lefelau ar gyfer 51 o gyfranogwyr i gyd. Wrth i effeithiau COVID-19 gydio, addaswyd y cyrsiau er mwyn eu cynnig ar-lein.

Fe wnaethom ddyfarnu cytundeb i gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol i gwmni allanol, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019. Gobeithiwn gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r gwerthusiad ym mis Ionawr 2021.

## Gwaith gyda'r consortia rhanbarthol

Yn 2019-20, dyrannwyd £2,700,000, o arian penodol o gyllideb Gwella Safonau Mewn Ysgolion, i'r consortia rhanbarthol, er mwyn eu galluogi i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.

Lluniodd y consortia gynlluniau blynyddol ar gyfer darparu dysgu proffesiynol, fel rhan o amodau grant Gwella Safonau Mewn Ysgolion.

O dan y cynlluniau, mae consortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac yn arbennig addysgu Cymraeg fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r rhanbarthau'n darparu ystod eang o ddysgu a chymorth proffesiynol, gan gynnwys:

- Sgiliau Iaith Gymraeg a methodoleg addysgu i gryfhau pob agwedd ar addysgu Cymraeg fel pwnc, Cymraeg ar draws y cwricwlwm, a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion.
- Datblygu sgiliau ymarferwyr i wella'r modd y caiff y cwricwlwm ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Datblygu arweinyddiaeth i sicrhau bod arweinwyr wedi'u harfogi i gynllunio a datblygu’r Gymraeg yn strategol ar draws yr ysgol a datblygu ethos Cymreig yn yr ysgolion.
- Cynllunio’r gweithlu’n rhanbarthol, gan ddefnyddio data o’r Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Ysgolion er mwyn gwella sgiliau iaith ymarferwyr a'u gallu i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector hwn.

Darparwyd cyllid hefyd drwy’r Grant Gwella Addysg. Bu'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi elfennau o’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg er enghraifft cyllid ar gyfer canolfannau trochi.

**Y gweithlu ôl-16**

Yn ystod 2019-20, rydym wedi parhau i gefnogi Sgiliaith i roi cefnogaeth ymarferol ar ddefnyddio’r Gymraeg a dysgu’n ddwyieithog i diwtoriaid mewn colegau addysg bellach, ac i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Rydym wedi gwneud hyn er mwyn gwella’r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy’n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Cynhelir y rhaglen Cymraeg Gwaith yn y colegau addysg bellach gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn datblygu sgiliau iaith tiwtoriaid a hynny er mwyn i fyfyrwyr allu ymgymryd â mwy o’u haddysg yn ddwyieithog. Yn 2019-20, dilynodd 305 o gyflogeion o wyth prifysgol y cwrs ‘Dysgu’, yn ogystal â 305 o gyflogeion o ddeg coleg addysg bellach. Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bellach yn rheoli’r Cynllun Dysgu Dwys, sy’n cydlynu gwaith y rhaglen Cymraeg Gwaith yn y sectorau addysg bellach ac uwch.

Yn ystod 2019-20, darparwyd tua 9,500 o weithgareddau dysgu, gyda 7,000 o’r rhain yn hyfforddiant ar-lein a 2,500 yn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Fe gofrestrodd 1,258 o gyflogwyr ar gyfer cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith, tra bod 28 o gyflogwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant Dysgu Dwys a 98 ar yr hyfforddiant preswyl.

**Adnoddau addysg**

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog ar y ffordd ymlaen o ran creu seilwaith cenedlaethol i ddatblygu a darparu adnoddau perthnasol ac amserol i gefnogi’r cwricwlwm a chymwysterau yn y dyfodol. Cyflwynwyd yr opsiynau i'r Gweinidog Addysg fis Rhagfyr 2019, ac mae'r gwaith o ddatblygu’r opsiwn arfaethedig yn fanylach yn parhau, gyda’r bwriad o wneud datganiad ddechrau 2021.

Bu’r gwaith o gomisiynu adnoddau ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yn canolbwyntio ar adnoddau i gefnogi cymwysterau cyffredinol ac ôl-16 eleni, yn ogystal ag adnoddau i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol.

Cyhoeddwyd 28 teitl newydd yn ystod 2019-20, drwy ein cytundeb grant i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i ddarparu fersiynau Cymraeg o werslyfrau i gefnogi cymwysterau. Ariannwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, a gwersi hunan-gyfeiriol ar gyfer Busnes a Chwaraeon.

Cafodd y gwaith ymchwil ar ddefnydd athrawon, dysgwyr a rhieni o adnoddau ei gwblhau, a bydd y canfyddiadau'n bwydo i mewn i benderfyniadau ar yr adnoddau sydd eu hangen, yn ogystal â'u fformat, yn y dyfodol.

Dyfarnwyd grant i RNIB Cymru i ddarparu fersiynau Cymraeg o adnoddau mewn fformatau addas ar gyfer dysgwyr sy'n ddall neu â nam ar eu golwg. (Braille, print bras, DAISY, ffeiliau MP3).

# Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Mae iaith sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio, ac mae hyn yn greiddiol i'n gweledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Rydym am i'r Gymraeg gael ei defnyddio bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio'n ffurfiol ac anffurfiol, gyda chynnyrch a gwasanaethau Cymraeg ar gael yn rhwydd.

Mae pobl angen cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu eu ffordd o fyw, gan gynnwys gyda'r teulu, yn y gweithle, mewn gweithgareddau lleol, neu mewn rhwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach sy'n gallu bod ar wasgar ym mhedwar ban byd.


## Y sefyllfa gyfredol – faint sy'n defnyddio'r Gymraeg?

Un o brif dargedau *Cymraeg 2050* yw cynyddu canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg o'r 10% yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 i 11% erbyn 2021 (ac 20% erbyn 2050).

Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw cynnal arolygon defnydd iaith. Dechreuodd y gwaith o gynnal Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, a'r bwriad oedd iddo barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Oherwydd COVID-19, bu rhaid atal yr arolwg ganol mis Mawrth 2020. Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau a gasglwyd hyd yn hyn erbyn diwedd 2020-21.

Er mai Arolygon Defnydd Iaith fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at y targed hwn, er mwyn cael canlyniadau mwy rheolaidd, byddwn hefyd yn defnyddio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd.

**Siart 11: Canran y bobl 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol**




Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran o'r oedolion 16 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, wedi aros yn eithaf sefydlog dros y chwe mlynedd diwethaf. 10% oedd y ganran yn 2019-20.

Yn sgil COVID-19, rydym wedi cynnal awdit o ddefnydd iaith cymunedol er mwyn gweld beth sydd wedi newid a darganfod cyfleoedd newydd. Bydd y canlyniadau ar gael erbyn diwedd 2020-21.

## 6. Y gweithle

Un o amcanion *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan fod *"... y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg*."

**Cymraeg Gwaith**

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gweinyddu'r rhaglen Cymraeg Gwaith[12]. 2019-20 oedd trydedd blwyddyn weithredol y rhaglen, sy'n mynd o nerth i nerth. Mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant a chymorth i weithleoedd er mwyn iddyn nhw ddatblygu eu gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae darparu mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle yn ffordd o gynyddu'r defnydd dyddiol o'r iaith ac yn gwella'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

Yn ystod 2019-20, darparwyd tua 9,500 o weithgareddau dysgu, gyda 7,000 o'r rhain yn hyfforddiant ar-lein a 2,500 yn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd y cyrsiau'n cynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion gweithwyr ym meysydd iechyd a gofal plant. Bu'r rhaglen hefyd yn gweithio gyda chyrff addysg uwch ac addysg bellach, gyda 610 aelod o staff ar draws 18 sefydliad yn derbyn hyfforddiant.

**Y defnydd o'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru**

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 yn holi sut mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr a phobl y tu allan i'r sefydliad fel rhan o'u gwaith, yn ogystal â pha gyfleoedd y mae cyflogwyr yn eu darparu i aelodau o staff ddysgu Cymraeg. Roedd hyn yn ffordd o'n helpu ni i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a dyma ddangosodd yr arolwg:

- Bod 80% o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr.
- Bod rhuglder yn chwarae rôl sylweddol yn eu penderfyniad i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr. Dywedodd 93% o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, o'i gymharu â 38% o'r rheiny nad ydynt yn rhugl.
- Bod 93% o gyflogeion sy'n rhugl yn Gymraeg yn siarad o leiaf peth Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad.
- Bod ychydig yn llai na thraean o gyflogeion yn dweud bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

Ein nod yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector. Mae'n bwysig felly ein bod ni'n arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ei gweithlu ei hun.

Ddechrau Ebrill 2020, cyhoeddwyd ein strategaeth newydd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg yn y sefydliad, *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*[13].

[12] Rhagor o ddata ar gael yma: https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/cyhoeddi-data/
[13] https://llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd-html

Rydym wedi treulio amser yn craffu ar arfer dda mewn sefydliadau eraill, ymgynghori gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, ac ystyried sut y gallwn arwain y ffordd drwy ein defnydd o’r Gymraeg yn y sefydliad.


Mae’r strategaeth yn gosod nod hirdymor, uchelgeisiol i ni fod yn sefydliad dwyieithog erbyn 2050. Mae’n nodi ein bod yn ymwybodol o sut y gall defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle roi mwy o bwrpas a pherthnasedd i'r iaith, a’r gobaith yw y bydd amcanion a nod y strategaeth o ddiddordeb i sefydliadau eraill.

Mae’r strategaeth yn uchelgeisiol; fodd bynnag, mae’r camau y byddwn yn eu cymryd i gynyddu defnydd o’r iaith yn rhesymol ac yn gymesur. Mae hyn yn golygu bod newid yn digwydd yn raddol. Y nod yw creu brwdfrydedd wrth ddysgu drwy'r Gymraeg, ac ni ddylai unrhyw un deimlo o dan fygythiad neu fod yn elyniaethus tuag at y fenter hon. Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i’r strategaeth:

- Ymrwymiad hirdymor ac arwain y ffordd: bydd y newid yn digwydd yn raddol, dros amser, ond ein bwriad yw arwain drwy esiampl yn y ffordd yr ydym yn hybu defnydd o’r iaith yn y gweithle.
- Buddsoddi mewn staff a rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu Cymraeg a meithrin sgiliau ieithyddol: mae’n hanfodol darparu hyfforddiant effeithiol a hwylus, gan roi amser a chymhelliant i bobl wella’u sgiliau Cymraeg yn barhaus.
- Parhau i fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol: mae gan bawb y potensial i fod yn siaradwr Cymraeg, ac nid yw’r strategaeth hon yn groes i’n hymrwymiad i fod yn agored, yn gynhwysol ac yn amrywiol. Er y bydd sgiliau Cymraeg yn fwyfwy angenrheidiol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi, nid yw meithrin gweithle dwyieithog yn golygu (nac yn awgrymu) bod y sgiliau hynny’n ofynnol ar gyfer ymuno â Llywodraeth Cymru.
- Adolygu ffyrdd o weithio’n rheolaidd er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o’r Gymraeg: pan fyddwn yn cyflwyno polisïau a mentrau mewnol newydd, byddwn yn adolygu i ba raddau y maent yn cynnig cyfleoedd pellach i staff ddefnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol.

Rydym wrthi’n mireinio amcanion cyfnod cyntaf y strategaeth (2020-25), gan ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn sefydliad sydd yn dangos esiampl yn ein defnydd o’r Gymraeg o gymharu â sefydliadau tebyg.

**Siart 12: Canran gweithlu Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg i wneud eu gwaith, yn ôl pa mor aml y maent yn ei defnyddio**




(a) Ni chafodd yr arolwg ei chynnal yn 2015, ac yn 2016 cafodd y categori “Mwy o Saesneg na Chymraeg” ei rannu'n dri chategori pellach, sef “mwy o Saesneg na Chymraeg” ond yn siarad Cymraeg bob dydd, yn wythnosol, neu'n llai aml nag wythnosol.

(b) Mae'r canlyniadau a ddangosir ar gyfer 2016 a 2019/20 wedi'u cymryd o'r Arolwg Pobl a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2020 (gan ystyried y flwyddyn o Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020). Mae'r canlyniadau eraill wedi'u cymryd o Arolygon Pobl y Gwasanaeth Sifil (sy'n cael eu cynnal gan Swyddfa Cabinet y DU ym mis Hydref fel arfer). I raddau helaeth, yr un holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau arolwg ac fe'u cynhaliwyd yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Pobl 2020 wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2020, roedd y gyfradd ymateb ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd COVID-19.

Mae'r siart yn dangos bod canran y staff sy'n siarad “Cymraeg bob amser” neu'n siarad mwy o Gymraeg na Saesneg wedi aros yn eithaf cyson ers 2013. Yn 2016, roedd 22% yn dweud eu bod yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith ond mwy o Saesneg, ac erbyn 2020 roedd 23% yn dweud hyn. Cafodd yr atebion posibl eu newid rhywfaint yn 2016 i roi'r opsiwn o ddweud “Mwy o Saesneg nag o Gymraeg” – ond yn defnyddio'r atebion posibl “Cymraeg bob dydd / bob wythnos / llai aml nag yn wythnosol”. Mae cyflwyno'r tri is-opsiwn hyn yn debygol o fod wedi newid sut mae pobl yn ateb y cwestiwn. Er hynny, ymddengys bod un o bob tri aelod o staff y Llywodraeth (30%) yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn eu gwaith yn 2020 a 14% yn ei defnyddio o leiaf bob dydd.

## 7. Gwasanaethau

### Cymraeg Gwaith

Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu ar draws pob sector, mae angen sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth i ddysgwyr yn y gweithle, ac mae camau allweddol yn cael eu cymryd yn hyn o beth. Fel y nodwyd eisoes, ehangwyd y cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg drwy raglen Cymraeg Gwaith yn ystod 2019-20, gyda'r rhaglen yn darparu hyfforddiant i dros 1,600 o gyflogwyr o ystod eang o sectorau. Llwyddodd y rhaglen i gyrraedd y targedau a bennwyd: yn sgil yr hyfforddiant, y nod yw gweld cynnydd mewn defnydd iaith a fydd yn ei dro yn arwain at ragor o wasanaethau yn cael eu cynnig yn Gymraeg gan amrywiol sectorau ac mewn amrywiol weithleoedd.

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Rydym wedi bod yn ystyried y rhaglen i ddod â mwy o gyrff o dan y Safonau, yn dilyn y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i gyflwyno Bil y Gymraeg ym mis Chwefror 2019.

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar reoliadau drafft i wneud safonau'n gymwys i reoleiddwyr proffesiynol yn y maes iechyd.

Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, fe wnaethom gynnal adolygiad o'r broses o ddrafftio'r rheoliadau safonau er mwyn gwella a mireinio'r safonau o fewn y fframwaith ddeddfwriaethol gyfredol.

Mae'r gwaith o baratoi rheoliadau i gwmnïau dŵr yn parhau. Rydym hefyd wedi ymrwymo i baratoi rheoliadau ar gyfer cwmnïau sydd yn darparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr yng Nghymru yn ystod y Senedd nesaf.

**Helo Blod**

Un o'n blaenoriaethau eraill yw annog busnesau a sefydliadau'r trydydd sector i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae Cymraeg Byd Busnes a'r Llinell Gyswllt bellach yn gweithredu o dan frand sengl 'Helo Blod'. Lansiwyd y gwasanaeth yn 'feddal' (ni chynhaliwyd lansiad ffurfiol oherwydd COVID-19) er mwyn helpu busnesau, elusennau a chyrff y trydydd sector i ddefnyddio rhagor o Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 500 gair y mis, yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun Cymraeg. Mae hefyd yn ateb ymholiadau o bob math gan fusnesau am y Gymraeg, ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth mewn sefydliadau perthnasol. Gellir cysylltu â Helo Blod dros y ffôn, drwy e-bost, neges testun, a maes o law, drwy ddulliau eraill.

Mae hwn yn brosiect sylweddol a reolir gan ddwy o adrannau'r Llywodraeth: Is-adran y Gymraeg, gyda chymorth Adran Busnes Cymru. Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith paratoi sylweddol i sefydlu'r 'pwynt cyswllt ieithyddol' i gynorthwyo'r sector gwirfoddol a phreifat i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod 2019-20, bu'r gwaith yn canolbwyntio ar y sector bwyd a diod, gan gynnal peilot gyda'r sector gofal sylfaenol er mwyn cynyddu eu defnydd gweledol a chlywedol o'r Gymraeg wrth ddelio gyda'r cyhoedd.

**ARFer**

Bydd gwella sefyllfa'r Gymraeg yn y gweithle hefyd yn ein cynorthwyo i ddarparu rhagor o wasanaethau, a'r rheiny'n wasanaethau gwell, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adroddwyd y llynedd bod prosiect ymchwil peilot wedi'i gychwyn drwy Grant *Cymraeg 2050*. Roedd y prosiect hwn yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad a chyflwyno gwasanaethau yn

well. Yn ystod 2019-20, ehangwyd y prosiect (‘ARFer’) i fod yn brosiect tair blynedd a fydd yn creu cist arfau i sefydliadau eraill fynd i’r afael â newid ymddygiad ieithyddol rhyngbersonol yn y gweithle. Dyfarnwyd y grant i Brifysgol Bangor. Yn sgil COVID-19, rydym wedi ymestyn hyd y contract hwn er mwyn iddo edrych ar sut y mae arferion iaith pobl yn y gwaith wedi newid nawr bod cynifer o bobl bellach yn gweithio o’u cartrefi.

Ffocws 2019-20, sef ail flwyddyn y prosiect, oedd adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod peilot, gan arsylwi arferion iaith gweithleoedd a chasglu deunydd ar gyfer pecyn i newid arferion defnydd o’r Gymraeg mewn sefydliad. Byddwn yn dylunio a pharatoi’r pecyn a’i dreialu yn ystod 2020-21. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo sefydliadau i ddarparu gwasanaethau technolegol drwy’r Gymraeg ar sail ymchwil berthnasol o’r gwyddorau ymddygiadol. Gwneir hyn ar y cyd â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth.

**Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog**

At hynny, yn ystod y flwyddyn datblygwyd darpariaeth ymwybyddiaeth iaith gritigol *Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog* ar y cyd rhwng Academi Wales ac Is-adran y Gymraeg. Cynhaliwyd sesiynau peilot gydag ystod o arweinwyr y sector cyhoeddus. Mae’r ddarpariaeth arweinyddiaeth hon yn parhau yn ystod 2020-21 gyda golwg ar ddatblygu rhaglen waith tymor hir iddi. Yn sgil COVID-19, mae’r cwrs bellach ar gael ar-lein.

**Gwerthuso ‘Mwy na geiriau’**

Comisiynwyd cwmni annibynnol i gynnal gwerthusiad o *Mwy na geiriau*[14] ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ym mis Awst 2018. Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol yn 2019. Mae’r gwaith hyd yma wedi cynnwys ymchwil ddesg a chynnal cyfweliadau gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys rhai o aelodau Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Canolbwyntiodd y cyfweliadau hyn ar y cyfleoedd a’r heriau ar gyfer gwireddu prif amcanion *Mwy na geiriau,* a pha bwyntiau allweddol y dylid mynd i’r afael â hwy fel rhan o’r gwerthusiad. Cyhoeddwyd adroddiad theori newid yn Ebrill 2020 a bydd yr adroddiad terfynol ar y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2021.

Mae canfyddiadau a chanlyniadau cam cyntaf y gwerthusiad a'r gwaith a wnaed yn ystod mis Ebrill 2019 – mis Mawrth 2020 wedi ei ategu yn yr *Adroddiad Theori Newid*[15] a gyhoeddwyd yn Ebrill 2020. Bu hyn yn sail i ddatblygu’r fframwaith gwerthuso ar gyfer y cam nesaf, sy’n cynnwys gwaith maes i gasglu lleisiau a phrofiadau pobl, gan gynnwys y claf, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Caiff y fframwaith ei ddefnyddio i asesu cynnydd ac i archwilio i ba raddau y mae’r gweithgareddau a'r allbynnau a'r deilliannau a nodwyd yn yr *Adroddiad Theori Newid* wedi'u cyflawni.

[14] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf
[15] https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-mwy-na-geiriau-theori-newid

Penderfynwyd gohirio cam nesaf y gwerthusiad dros dro, oherwydd y sefyllfa gyda COVID-19 a'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Adolygwyd y penderfyniad hwn yn ddiweddar a bydd swyddogion yn gweithio gyda'r gwerthuswyr i edrych ar opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen yn ddiogel â'r gwaith maes yn ystod 2020-21, gan sicrhau ein bod yn cadw at unrhyw gyfyngiadau a all fod ar waith.

## 8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Ein nod yw sefydlu arferion defnydd iaith cadarnhaol, ynghyd â chynnig chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol.

Sefydlwyd Rhaglen Hybu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys sefydlu grŵp o randdeiliaid allanol ar ffurf Bwrdd Cynllunio i lywio'r gwaith. Roedd gwaith y Bwrdd Cynllunio yn cynnwys arbenigwyr a'n cynorthwyodd i baratoi i lunio rhaglen o weithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (e.e. prosiectau megis Deall Dwyieithrwydd, Rhwydwaith Cymraeg Byd Busnes, Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg, a Helo Blod a grybwyllir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn). Gan fod y prosiectau hyn bellach ar waith, mae gwaith y Bwrdd wedi dod i ben ac mae'r gweithredu'n destun ein prosesau monitro corfforaethol.

**Annog arferion iaith cadarnhaol**

Yn ystod 2019, dyrannwyd grantiau i 27 o bartneriaid er mwyn hybu a hyrwyddo'r iaith ar lefel gymunedol ac yn genedlaethol. Mae'r cyllid hwn yn galluogi ein partneriaid i ddatblygu a chynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn creu pont rhwng addysg ffurfiol a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn gymdeithasol.

Mae gwaith yr Urdd, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, y mentrau iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol oll yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Rydym eisiau rhoi cyfle i bobl ifanc sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol ac annog arferion iaith cadarnhaol drwy ymwneud â'r byd diwylliannol a chelfyddydol yn ogystal â chwaraeon.

Mae darpariaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg hefyd yn un o flaenoriaethau Grŵp Tasg a Gorffen ein strategaeth ieuenctid sy'n cwrdd yn chwarterol.

Fe wnaethom ni gomisiynu gwerthusiad o'r Siarter Iaith[16] a rhaglenni cysylltiedig (Cymraeg Campus, Siarter Iaith ysgolion uwchradd, a Cymraeg Bob Dydd) er mwyn ystyried beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei ddatblygu o ran datblygu arferion iaith yn yr ysgol. Cafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi fis Gorffennaf 2020.

Mae llunio polisi sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd yn her felly cafodd 14 sesiwn hyfforddiant defnydd iaith eu cynnal gydag ysgolion unigol a dalgylchoedd ysgolion uwchradd. Ni chafodd yr holl sesiynau eu cynnal oherwydd i'r ysgolion gau dros dro yn sgil COVID-19.

---

[16] https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-siarter-iaith

## Grantiau

Ar 6 Mawrth 2020, cafodd gwahoddiad i dendro ei ryddhau er mwyn cynnal adolygiad o gynllun grant Hybu a Hyrwyddo’r Defnydd o’r Gymraeg. Ond oherwydd COVID-19, bu raid gohirio’r adolygiad. Byddwn yn ailgydio yn y gwaith yn ystod 2020-21.

Rhoddwyd grant o dros £4m i Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, y mentrau iaith, yr Urdd a’r papurau bro. Gyda’r cymorth ariannol hwn, cynhaliwyd 21,000 o weithgareddau, gyda mwy na miliwn yn cymryd rhan:

- Cynhaliwyd 11,618 o weithgareddau i blant a phobl ifanc er mwyn eu hysbrydoli i ddefnyddio’r Gymraeg: amrywiaeth o gystadlaethau, chwaraeon, gigs, clybiau a gweithgareddau.
- Cynhaliwyd 1,655 o weithgareddau i deuluoedd yn benodol.
- Trefnodd y mentrau iaith 9,229 o weithgareddau yn ein cymunedau, gyda 231,366 yn mynychu.
- Drwy law Mentrau Iaith Cymru, sefydlwyd cronfa gwyliau bach i gefnogi sefydliadau a grwpiau bach i greu a chynnal gwyliau cymunedol newydd gyda’r pwyslais ar gerddoriaeth boblogaidd Gymraeg. Cafodd 11 gŵyl newydd gan gynnwys Gŵyl y Ferch ar Ynys Môn, gymorth ariannol drwy’r gronfa hon.
- Mynychodd 9,338 o blant a phobl ifanc weithgareddau cymunedol y Clybiau Ffermwyr Ifanc.
- Amcangyfrifwyd fod tua 180,000 o bobl wedi mynychu Eisteddfod Genedlaethol 2019 gan gynnwys y cynllun mynediad fforddiadwy llwyddiannus i bobl leol.
- Daeth 37,000 o bobl i ddathlu Tafwyl.
- Ym mis Mai 2019, rhoddwyd mynediad am ddim i bawb i Eisteddfod yr Urdd, Bae Caerdydd, a hynny am y tro cyntaf erioed. Daeth 100,000 i’r Ŵyl, gyda 70,530 yn cystadlu.

## Y trydydd sector

Rydym wedi bod yn gweithio gyda swyddfa’r Comisiynydd Iaith, Mentrau Iaith Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i wella, cynllunio a chefnogi gallu’r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac i ddenu gwirfoddolwyr sy’n siarad Cymraeg. Lansiodd y Gweinidog ymgyrch Mentrau Iaith Cymru i geisio denu mwy i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy.

## Siaradwyr Cymraeg newydd

Rydym wedi bod yn datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd, mewn partneriaeth â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2018-19, mae’r cynllun ‘Siarad’ yn parhau i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ym mhob rhan o Gymru i ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus mewn cyd-destun anffurfiol. Mae disgwyl i’r parau dreulio o leiaf 10 awr gyda’i gilydd yn defnyddio’r Gymraeg. Yn sgil COVID-19, bydd y Ganolfan yn mynd ati i ail-lansio ‘Siarad’ fel ei fod yn gynllun ar-lein.

Un elfen o *Cymraeg 2050* yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd pobl. Nod ymgyrch Dydd Miwsig Cymru (DMC) yw cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa newydd ac annog pobl i gefnogi'r sîn gerddoriaeth Gymraeg.

Cynhaliwyd ymgyrch genedlaethol Dydd Miwsig Cymru 2020 ar 7 Chwefror. Hon oedd y pumed flwyddyn i ni gynnal yr ymgyrch. Isod, ceir rhai o brif ganlyniadau'r ymgyrch:

Digwyddiadau: Mynychodd dros 85,000 o bobl ddigwyddiadau ar draws Cymru. Hefyd, cafodd bron i 100,000 o bobl ychwanegol gyfle i glywed cerddoriaeth Gymraeg wrth ymweld â'r siopau a'r busnesau a oedd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch.

Sylw yn y wasg: Ymddangosodd 125 eitem am DMC yn y wasg brint, ar-lein a'r cyfryngau darlledu, gyda chyrhaeddiad o 87 miliwn o bobl, diolch i eitemau neu erthyglau gan BBC 5Live, BBC World Service, ITV Cymru, BBC Radio 4 a mwy.

Cyrhaeddiad yr ymgyrch: Gwyliodd dros 699,600 ein cynnwys fideo dwyieithog ar draws Twitter, Facebook ac Instagram, ac roedd dros 50,000 o ryngweithiadau gyda'n cynnwys ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Defnyddiwyd yr hashnodau gan fusnesau ar draws y DU, cyrff llywodraethol, grwpiau cymunedol, busnesau mawr, cymunedau o Gymry dramor, sefydliadau cerddoriaeth a diwylliannol, gan gynnwys Dazed (dros 1.2 miliwn o ddilynwyr), Carol Vorderman, EE, Iwan Rheon, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Classic FM, Tim Burgess, Super Furry Animals, Huw Stephens, Cerys Matthews, Elis James a Green Man.

Roedd digwyddiadau a gweithgareddau DMC 2020 yn gyfle i greu ac i atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol ac i sicrhau cyfalaf cymdeithasol yn Gymraeg.

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nod y camau sy'n perthyn i'r thema hon yw cefnogi ein hymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn gweithio i greu amodau addas a meithrin amgylchedd lle gall yr iaith a'i siaradwyr ffynnu.

Er bod gennym ni dargedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg, ni chaiff y naill na'r llall eu cyflawni heb seilwaith addas.

### Prosiect 2050

Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai'n sefydlu Prosiect 2050. Uned amlddisgyblaethol newydd fydd hon yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru a thu hwnt er mwyn cyflawni ein hamcanion gyda'n gilydd. Bydd cyllid yn cael ei neilltuo i gyflogi arbenigwyr i arwain a chynghori Prosiect 2050.

Rhoddwyd y tasgau canlynol i Prosiect 2050:

- Cydlynu'r gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at miliwn o siaradwyr, o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg, i addysg ôl-orfodol i Gymraeg i oedolion.
- Dyblu'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu mentrau newydd, a gwerthuso'r mentrau presennol.
- Cefnogi meysydd polisi ar draws y Llywodraeth i gyfrannu at y gwaith o gynnal ein cymunedau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn dilyn oedi yn sgil COVID-19, mae Pennaeth Prosiect 2050 bellach wedi'i benodi ac yn ei swydd.

### 9. Y gymuned a'r economi

Ein nod yw datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.

Mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u timau'n gweithio gyda phartneriaid yn y Llywodraeth a thu hwnt er mwyn datblygu dimensiwn rhanbarthol cryfach i'r gwaith datblygu economaidd. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol wrthi'n cael eu datblygu, a bydd y rhain yn bwysig o ran rhoi cyd-destun i'r gwaith ochr yn ochr ag anghenion cymunedau, awdurdodau lleol, colegau, busnesau ac eraill er mwyn gwella canlyniadau.

Sefydlwyd rhaglen Arfor yn swyddogol ym mis Ebrill 2019 gan gynnig sylfaen i gynnal amryw o brosiectau arloesol yn siroedd Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais ar ddatblygu'r seilwaith economaidd gyda'r nod hefyd o roi budd i'r Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd amrywiol raglenni yn unol â blaenoriaethau'r bedair sir. Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru £2m o gyllid i gynorthwyo busnesau ac i ysgogi

unigolion i fentro am y tro cyntaf. Fe wnaethom ni hefyd gomisiynu cwmni annibynnol i ddatblygu fframwaith werthuso ac i greu cynllun strategol i Arfor fel rhan o'r rhaglen hefyd.

Mae rhaglen Arfor hefyd wedi datblygu prosiectau sy'n cefnogi entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc. Bwriad prosiect Llwyddo'n Lleol yw cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu syniadau busnes gan roi cefnogaeth i'r unigolion hynny ar hyd y daith. Ar ben hyn, mae Gwynedd wedi datblygu prosiect Her Cymunedau Mentrus. Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda thair cymuned i gynnig cyfleoedd o'r newydd i ddatblygu syniadau a fydd yn cylchdroi arian o fewn eu cymunedau ac yn creu swyddi. Bydd y cynlluniau hyn yn parhau yn 2020-21 ac yn cael eu gwerthuso fel rhan o werthusiad ehangach rhaglen Arfor er mwyn dysgu gwersi ac ystyried ffyrdd o ehangu'r cynlluniau yn y dyfodol.

**Wylfa Newydd**

Yn dilyn cyhoeddiad Horizon fod datblygiad Wylfa Newydd wedi'i oedi, ni wnaed cynnydd gyda'r fframwaith asesu effaith yn ystod 2019-20. Bellach, mae Horizon wedi datgan eu bod yn tynnu allan o'r prosiect yn gyfan gwbl ond byddwn yn parhau i ystyried datblygu fframwaith asesu effaith i'w ddefnyddio yn ehangach yn y dyfodol. Mae'r gwaith a wnaed ar brosiect Wylfa Newydd yn enghraifft o sut y gellir prif-ffrydio'r Gymraeg i mewn i ddatblygiadau mawr yn lleol. Mae hyn yn berthnasol i bob agwedd ar *Cymraeg 2050.*

**Cynllunio**

Cafodd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ei gyhoeddi fis Hydref 2017 ac rydym yn parhau i gydweithio, dylanwadu a chynghori awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt ddatblygu ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gan y cynlluniau hyn a'r Cynlluniau Datblygu Strategol rôl allweddol i'w chwarae yn y maes cynllunio ac rydym yn awyddus i barhau i gefnogi awdurdodau cynllunio i gynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith.

Fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ym mis Awst 2019 cynhaliwyd digwyddiadau cyhoeddus a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth y Gymraeg[17]. Fe wnaeth yr asesiadau effaith statudol ystyried effeithiau'r Fframwaith ar y Gymraeg. Mae'r gwaith o greu'r Fframwaith yn parhau, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi ar ei ffurf derfynol ym mis Chwefror 2021 o dan y teitl *Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040*.

Mae cynllunio datblygu lleol yn hollbwysig bob amser, yn arbennig yn y cyd-destun presennol, ac rydym yn benderfynol y dylai pob Cynllun Datblygu Strategol roi ystyriaeth i'r Gymraeg.

[17] https://llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gymraeg

**Brexit**

Wrth i'r ansicrwydd am Brexit barhau, mae'n anodd cynllunio strwythurau newydd, serch hyn mae ystyriaethau a phwysigrwydd cynnal cymunedau Cymraeg yn ganolog i unrhyw gynllun newydd.

Rydym wedi parhau i gefnogi ffermwyr i wella effeithlonrwydd eu busnesau mewn ymateb, ac er mwyn paratoi ar gyfer effaith Brexit, gan gynnwys darparu cymorth drwy ein grantiau bach i ffermwyr, ein cynllun Glastir a Chyswllt Ffermio. Cynhaliwyd ymgynghoriad, sef Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, yn ystod 2019 yn holi barn ar ein cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru. Bwriad y cynigion yw helpu ffermwyr i ffynnu wrth fynd ati i geisio'r canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt ac sy'n caniatáu i ffermwyr aros ar eu tir a chyfrannu i'w cymunedau.

Ym mis Hydref 2019, cynhaliodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol drafodaeth Bwrdd Crwn Economi ac Iaith gydag arweinwyr awdurdodau lleol, economegwyr ac ymarferwyr sy'n gweithredu prosiectau economaidd yng ngorllewin Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr Egin yng Nghaerfyrddin, gan edrych ar y gyd-berthynas a'r heriau sy'n wynebu'r ardal, yn ogystal â pha gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg a'r economi wledig i'r dyfodol.

## 10. Diwylliant a'r Cyfryngau

Gwyddom pa mor bwysig yw hi i sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru allu cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt i hybu'r Gymraeg. Mae ein swyddogion yn y meysydd hyn yn cefnogi'r nod hwn mewn nifer o ffyrdd:

- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu Archif Ddarlledu Genedlaethol, dan arweiniad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau (2024), bydd copïau wedi'u digideiddio o archif teledu a radio BBC Cymru Wales ar gael i'r cyhoedd yn ei chyfanrwydd – peth ohono ar-lein a pheth yn y Llyfrgell ac yn y pedair canolfan treftadaeth ddigidol. Mae rhan fawr o'r casgliad yn Gymraeg a bydd y prosiect hwn yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol ac mewn ysgolion.
- Cefnogi cerddoriaeth Gymraeg drwy gyfrwng y prosiect Pyst.

Mae'r hyn a ddisgwyliwn gan y cyrff a noddir gennym wedi'i nodi mewn llythyrau cylch gwaith a ddiweddarwyd yn 2019. Mae pob un o'r cyrff a noddir gennym yn y sector Diwylliant a Chwaraeon wedi ymrwymo i gefnogi ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac maent yn rhagweithiol yn eu hymateb i'r polisi.

Mae annog a chefnogi aelodau staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y cyrff a noddir gennym, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau da â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae ein Polisi ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

**Brand 'Cymru'**

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o frand Cymru Wales. Yn wir, mae'r iaith yn ysbrydoli elfennau creiddiol o'r brand, er enghraifft y ffont (sydd wedi ennill gwobr aur yng Ngwobrau Dylunio Ewrop).

Byddwn yn parhau i annog busnesau i adlewyrchu gwerthoedd y brand yn eu gwaith. Yn y sector twristiaeth, mae hyn yn cynnwys annog busnesau croeso i sicrhau naws am le cryf yn eu darpariaeth, ac mae defnyddio'r Gymraeg yn ganolog i hyn.

Mae'r Gymraeg wedi cael ei defnyddio'n helaeth yn y flwyddyn dan sylw i hybu Cymru a denu twristiaeth a buddsoddiadau. Fe wnaethom ddefnyddio'r Gymraeg mewn ymgyrchoedd blaenllaw ar gyfer twristiaeth a buddsoddi yn Llundain, Japan ac Iwerddon – roedd yr ymgyrchoedd yn Japan a Dulyn yn cynnwys digwyddiadau byw a oedd yn trafod ac yn dathlu iaith a diwylliant Cymru.

Byddwn yn parhau i wneud mwy i roi llwyfan i'r Gymraeg yn ein hymgyrchoedd dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Gweithgarwch noddi**

Drwy ein gweithgarwch noddi, ein nod yw sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd.

Bu swyddogion polisi y Gymraeg a Diwylliant yn parhau i gydweithio i sicrhau lle amlycach i'r Gymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol o bob math. Roedd hyn yn cynnwys archwilio'r rhyngberthynas rhwng iaith a diwylliant er mwyn datblygu digwyddiadau, cynhyrchion a gweithgareddau sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw.

Roedd hefyd yn cynnwys ystyried ffyrdd o hyrwyddo cyfoeth diwylliant cyfrwng Cymraeg fel rhan o elfen ddiwylliant ein strategaeth Ymgysylltu'n Rhyngwladol[18] newydd.

Mae pwyslais parhaus ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gweithgarwch noddi. Arweiniodd defnydd o'r Gymraeg gan ein sefydliadau diwylliannol at yr awydd ymhlith nifer o staff ein cyrff a noddir i ddysgu neu wella'u Cymraeg.

**Treftadaeth**

Mae Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol wedi gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu eu safleoedd yn ganolfannau ar gyfer dysgu'r iaith, gan gydweithio â'r Ganolfan fel rhan o ŵyl 'Ar Lafar' ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Nod yr ŵyl hon, a oedd ar gael am ddim, oedd rhoi cyfle i ddysgwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau ymarfer eu Cymraeg mewn lleoliadau anffurfiol a hamddenol.

[18] https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru?_ga=2.36756130.34510236.1604386056-214969641.1570023225

Mae Amgueddfa Cymru yn rhagweithiol ynghylch hyrwyddo sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae'n aelod o gynllun gweithle y Ganolfan, sy'n darparu amrywiaeth o adnoddau a dosbarthiadau dysgu Cymraeg i staff. O ganlyniad, mae wedi cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg, gyda 53% o'r gweithlu yn dweud bellach bod ganddynt sgiliau rhwng lefelau Mynediad ac Uwch.

Mae Amgueddfa Cymru yn defnyddio technoleg i gefnogi'r Gymraeg. Mae'n treialu teithiau realiti estynedig tairieithog newydd sbon yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a dyma'r amgueddfa gyntaf yn y DU i ddefnyddio'r cyfuniad hwn o dechnoleg. Mae'n datblygu teithiau Google Expeditions yn Big Pit hefyd – byddant ymhlith y teithiau cyntaf a ddatblygir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiadau realiti rhithwir (VR) Cymraeg a Saesneg newydd yn cael eu datblygu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd hefyd.

Mae'r Amgueddfa'n cefnogi grwpiau a gweithgareddau lleol eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg hefyd: Mae 'Ti a Fi' Cymraeg i Blant wedi cyfarfod yn wythnosol yn Sain Ffagan, cynhaliwyd Paned a Phapur ddwywaith y mis yn Amgueddfa Wlân Cymru, ac yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, cynhaliwyd Taith Iaith yn fisol.

Ym mis Gorffennaf 2019, enillodd Sain Ffagan Wobr Amgueddfa'r Flwyddyn Art Fund UK, gan greu argraff ar y beirniaid drwy'r ffordd y mae'n byw, yn anadlu ac yn ymgorffori diwylliant a hunaniaeth Cymru.

Yng Nghomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, croesawodd 38% o'r staff y cyfle i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn ystod 2019-20. Mae lefelau defnydd gwasanaeth ymholiadau Cymraeg y Comisiwn wedi dangos cynnydd sylweddol, gan godi o 11% yn 2018/19 i 20% yn 2019/20. Cefnogir hyn hefyd gan nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio tudalennau gwe Cymraeg y Comisiwn Brenhinol. Bu cynnydd o 56% yn nifer y porwyr sy'n defnyddio Coflein yn Gymraeg yn ystod chwe mis cyntaf 2019 o gymharu â 2018.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi parhau i gefnogi'r fersiwn Gymraeg o Wicipedia, ac mae wedi bod yn cyflogi swyddog Wicipedia ers 2015. Mae'r Llyfrgell yn arwain ar brosiect peilot addysgol newydd hefyd, gyda'r nod o wella mynediad disgyblion ysgol at wybodaeth ar Wicipedia am hanes Cymru yn Gymraeg.

Yn 2019, enillodd y Llyfrgell wobr am Dysgu Cymraeg – Cymraeg yn y Gweithle (Cyflogwr), a gyflwynwyd i'r cyflogwr sydd wedi gwneud y mwyaf i annog a chefnogi ei weithlu i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, dan arweiniad y Llyfrgell Genedlaethol, wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu elfen fawr o'r prosiect yn Gymraeg.

**Chwaraeon yr Urdd**

Mae'r Urdd yn derbyn cyllid gan Chwaraeon Cymru bob blwyddyn. Mae'n ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a'u cael i gymryd rhan weithredol mewn chwaraeon bob wythnos ac am oes, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhaglenni 'Chwaraeon Bach' yr Urdd yn mynd ati i annog teuluoedd i gymryd rhan mewn

amgylchedd hwyliog a chreadigol, gan gyflwyno sgiliau datblygu echddygol sylfaenol plant drwy chwarae. Ar draws y De a'r Gorllewin, mae 'Chwaraeon Bach' yn cynnwys cyfleoedd eang i'r cyfnod sylfaen bellach mewn chwaraeon amrywiol, gan gynnwys pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, gymnasteg ac aml-sgiliau, gan gyfrannu at lesiant cyfannol y plant drwy ddatblygiad llythrennedd corfforol.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru gyfrifoldeb i ddatblygu a chefnogi’r celfyddydau yn y ddwy iaith. Fel sefydliad dwyieithog, mae’r Cyngor wedi ymrwymo’n llwyr i’r iaith ac mae’n rhan greiddiol o’i holl waith. Drwy gyfrwng ei waith gyda Phortffolio Celfyddydol Cymru, artistiaid, sefydliadau a phrosiectau sy’n cael eu hariannu drwy’r rhaglenni a ariennir gan y Loteri yng Nghymru, mae gan y Cyngor y gallu i ddylanwadu ac eirioli dros ddefnydd dyddiol o’r iaith, cynyddu ei phroffil, creu cyfleoedd ar gyfer gwaith a datblygu llais sy’n eirioli dros ddiwylliant cyfrwng Cymraeg drwy gyfrwng rhwydwaith o bartneriaid. Mae’r Cyngor wedi sefydlu grŵp i fonitro a herio cynnydd wrth iddo ystyried sut orau i ymwreiddio’r iaith yn ei holl fuddsoddiadau, prosiectau a gwaith.

Yn ddiweddar, mae’r Cyngor wedi comisiynu Prosiect Mapio Cymraeg i weithio gyda rhanddeiliaid i ddarganfod beth yw lefelau gweithgarwch celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio’n benodol ar y gweithgareddau hynny nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Cyngor. Y bwriad yw datblygu gweledigaeth gynaliadwy hirdymor ar gyfer y dyfodol. Mae’r prosiect yn argymell cyfres o gamau a fydd yn llywio cynlluniau gweithredu’r Cyngor yn ystod y blynyddoedd i ddod. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda’r Cyngor i wneud yn siŵr ei fod yn eirioli’n rhagweithiol dros yr iaith.

**Y cyfryngau**

Adeg dyfarnu neu adolygu trwyddedau radio gorsafoedd yng Nghymru, rydym yn atgoffa Ofcom a Llywodraeth y DU y dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg. Gofynnwn iddynt wneud hyn drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau’n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Mae hyn yn golygu y dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.

Rydym wedi parhau i gyfeirio at bwysigrwydd S4C a Radio Cymru o ran darparu gwasanaethau Cymraeg gyda Llywodraeth y DU, Ofcom ynghyd â’r BBC. Maent yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth gyflawni ein nod o gyrraedd y miliwn erbyn 2050. Byddwn yn parhau i weithio gydag S4C a BBC Cymru Wales i gyflawni ein dyheadau ar gyfer yr iaith.

Rydym yn cefnogi’r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatau, er mwyn bodloni’r galw gan wahanol gynulleidfaoedd.

Mae ein cefnogaeth ariannol drwy Gyngor Llyfrau Cymru wedi sicrhau bod modd parhau i gefnogi cyhoeddwyr i gynhyrchu llyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant.

Cyhoeddwyd dros 200 o lyfrau ac e-lyfrau Cymraeg a 15 o gylchgronau print a digidol i oedolion a phlant, yn ystod 2019-20, gyda'r Cyngor Llyfrau yn parhau i roi sylw arbennig i lyfrau plant a phobl ifanc i wireddu rhai o argymhellion Adroddiad Siwan Rosser.

Mae Golwg 360 yn parhau i gael ei ariannu gennym ni drwy'r Cyngor Llyfrau. Roedd yr ymweliadau dyddiol unigol ar gyfartaledd yn 16,185; ymweliadau tudalen yn 147,758; cynyddodd y dilynwyr ar Twitter o 13,248 i 14,203; ac ar Facebook o 3,596 i 3,783.

Gweithiodd y Cyngor mewn sawl cyfeiriad i wireddu argymhellion Siwan Rosser. Cynhaliwyd ail gwrs yn Nhŷ Newydd ar gyfer awduron a darlunwyr llyfrau oedolion ifanc, mewn cydweithrediad â Llenyddiaeth Cymru. Gwelwyd tipyn o ffrwyth y cwrs cyntaf ar gyfer llyfrau stori a llun yn cyrraedd y farchnad yn ystod 2019-20. Gweithiwyd gyda myfyriwr PhD o Brifysgol Bangor sy'n edrych ar fodelau o gyflwyno llyfrau i CA2, ac fe sefydlodd wefan www.sonamlyfra.cymru sy'n tynnu sylw at ac yn adolygu llyfrau Cymraeg i blant yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Sefydlodd cylchgronau Cara a Lysh eu hunain yn gyflym ac yn llwyddiannus gan ddatblygu dilynwyr a phrynwyr brwd. Yn anffodus, tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol daeth y newyddion na fyddai comic Mellten (y Lolfa / Huw Aaron) yn parhau. Ond trefnwyd cyfarfodydd llwyddiannus rhwng Cip (yr Urdd) a Huw Aaron a chytunwyd ar fodel cydweithrediad rhwng y ddau gyhoeddiad. Fe wnaeth COVID-19 amharu ar y gwaith ond deilliodd 50 fideo #CriwCelf Huw Aaron ar YouTube yn uniongyrchol o'r bartneriaeth hon drwy nawdd y Cyngor Llyfrau.

Bu cynnydd yn nifer y llyfrau darllen hamdden i ddysgwyr yn y gyfres Amdani, a pharhau mae'r cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda gwerslyfrau'n cyrraedd llyfrwerthwyr drwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor.

Gweithiodd y Cyngor i wireddu ail gam y cynllun Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn fel bod darpariaeth eang ar gael yn y Gymraeg ym meysydd dementia ac iechyd meddwl. Cyhoeddwyd 40 o lyfrau yn 2019-20 ac mae gwaith wedi cychwyn ar ran nesaf y cynllun sef cyhoeddi 22 o lyfrau yn ymwneud ag iechyd a lles ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cafodd gwybodaeth am lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ei ddarparu ar ffurf Blwyddlyfr a rhestrau penodol (gan gynnwys rhestr iechyd a lles) i holl ysgolion, llyfrgelloedd a llyfrwerthwyr Cymru.

Sicrhawyd bod deunydd dwyieithog ar gyfer ymgyrchoedd Sialens Ddarllen yr Haf ar gael i lyfrgelloedd ac i ysgolion ar gyfer Diwrnod y Llyfr pan gyhoeddwyd dau lyfr £1 Cymraeg newydd (yn cynnwys fformat Braille).

Comisiynwyd a chyhoeddwyd dau deitl Cymraeg fel rhan o gynllun Stori Sydyn / *Quick Reads*, sy'n anelu at ddenu darllenwyr anfoddog.

Fe wnaethom drefnu tendr llwyddiannus ar gyfer swyddi golygyddol yn y gweisg ac oherwydd y newidiadau yng Ngwasg Gomer (a dim ceisiadau yn dod o'r wasg

honno), llwyddwyd i gefnogi dwy swydd newydd – y naill gyda Rily a'r llall gyda Gwasg y Bwthyn – a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu darpariaeth ymhellach.

Yn sgil y newidiadau yn Gomer, yn 2019-20, dechreuwyd ar y gwaith i geisio denu cyhoeddwyr newydd i'r maes er mwyn sicrhau ehangder yr amrywiaeth yn ogystal â'i ddyfnder. Eisoes, mae gwaith wedi dechrau ar y cyd gyda chwmni newydd Broga.

**PYST**

Cafodd PYST ei lansio fis Hydref 2018 fel cwmni nid-er-elw a fyddai'n manteisio ar yr hyder newydd a welwyd mewn cerddoriaeth Gymreig gyda ffocws benodol ar gerddoriaeth Gymraeg. Ers lansio PYST, mae cerddoriaeth Gymreig wedi ei ffrydio 25m o weithiau. Dyfarnwyd £203,843 ychwanegol i PYST fis Ionawr 2020 er mwyn datblygu a chreu platfform AM.

Mae AM yn blatfform digidol a ddefnyddir ar draws y diwydiannau creadigol gyda sianeli'n amrywio o sefydliadau fel Cyngor Llyfrau Cymru a'r Eisteddfod i labeli recordio unigol a chwmnïau cynhyrchu teledu. Mae'n blatfform agored ar gyfer pob math o gynnwys creadigol Cymraeg neu Saesneg. Mae wedi cael ei ddefnyddio hefyd i ffrydio digwyddiadau byw er enghraifft Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod 6 mis cyntaf AM: mae 200 o sianeli wedi'u creu; mae 60k wedi ei ddefnyddio; ceir 11k o ddefnyddwyr misol; mae'r ap wedi'i lawrlwytho 9.5k o weithiau a chafwyd 300k o welediadau.

## 11. Cymru a'r byd ehangach

Rydym eisiau dangos i'r byd ein bod yn wlad amlieithog sy'n rhoi bri ar hybu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Rydym yn dathlu'r ffaith y caiff y Gymraeg ei siarad gan bobl o bob cefndir, tra'n cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau fod gan aelodau o'r gymuned *BAME* well cyfle i gaffael a defnyddio'r iaith. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn yn ystod 2020-21 a bydd yn rhan bwysig o'n Rhaglen Waith nesaf.

**Ysgol Gymraeg Llundain**

Rydym yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru.

**Ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

Datblygodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gwrs blasu 'Croeso i bawb', gan roi cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddysgu Cymraeg ar gyrsiau wedi eu teilwra'n arbennig ar eu cyfer.

Yn ogystal â chynnal cyrsiau rhad ac am ddim i gynulleidfaoedd targed penodol, mae'r Ganolfan wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys Cyngor

Ffoaduriaid Cymru ar raglen ‘Cymraeg i Bawb’ gyda’r nod o sicrhau bod unigolion o bob cefndir yn gallu dysgu Cymraeg a datblygu eu hyder i ddefnyddio’r iaith.

**Patagonia**

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg yn parhau i hyrwyddo a datblygu’r Gymraeg ym Mhatagonia. Treuliodd tri swyddog datblygu gyfnodau ym Mhatagonia yn dysgu’r iaith i blant ac oedolion a chefnogi gweithgareddau i ddefnyddio’r iaith, yn sgil gwaith y Cyngor Prydeinig, ar y cyd â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yr Urdd, Cymdeithas Cymru Ariannin a phartneriaid eraill. Rhoddwyd cyfle i dros 1,200 o unigolion fynychu cyrsiau Cymraeg ym Mhatagonia yn ystod 2019.

**UNESCO**

Roedd 2019 yn *Flwyddyn Ryngwladol UNESCO ar gyfer Ieithoedd Brodorol*. Ein nod drwy gymryd rhan yn y flwyddyn oedd codi proffil Cymru yn rhyngwladol fel gwlad ddwyieithog ac atgyfnerthu Cymru fel un o’r gwledydd arweiniol o safbwynt adfywio ieithyddol. Bu’r Gweinidog ar ymweliad â phencadlys UNESCO ym Mharis i sôn am ein gwaith a sefyllfa’r Gymraeg. Ar sail llwyddiant y flwyddyn, y bu Cymru’n chwarae rôl arweiniol ynddi, mae UNESCO wedi penderfynu sefydlu *Degawd Ieithoedd Brodorol*, a fydd yn dechrau yn 2022. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i godi proffil y Gymraeg a rhannu arferion da gydag eraill ledled y byd.

Bu Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn bartner i ni yn ystod y flwyddyn hon gan gynnal rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg yng nghyd-destun y celfyddydau. Er enghraifft:

- Symposiwm ym Methesda ym mis Ebrill 2019 a oedd yn trafod cyfleoedd i’n hartistiaid berfformio yn Gymraeg ar draws y byd.
- Tywys dirprwyaeth ryngwladol i’r Eisteddfod Genedlaethol.
- Hwyluso partneriaeth ryngwladol gyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol gydag Iwerddon a chwmni Fidget Feet.
- Prosiect MAMIAITH sef gwaith ar y cyd rhwng artistiaid sy’n canu yn Gymraeg ac artistiaid sy’n canu mewn ieithoedd brodorol o wledydd eraill.

Fel penllanw i flwyddyn UNESCO ym mis Tachwedd, cynhaliwyd Gŵyl Ein Llais yn y Byd yn Aberystwyth mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth – gyda chyfres o sgyrsiau, paneli trafod a pherfformiadau i ddathlu’r Gymraeg fel iaith hyfyw. Roedd y themâu trafod yn cynnwys y canlynol, gan amlygu profiad o Gymru a gwledydd eraill:

- Dysgu a defnyddio iaith
- Iaith, llên, y celfyddydau a’r cyfryngau
- Polisi a chynllunio iaith.

Yn 2020, cyhoeddwyd ein Strategaeth Ryngwladol sy’n rhoi sylw i’r Gymraeg a dwyieithrwydd mewn sawl man, gan gynnwys ymrwymiad fel rhan o sefydlu Cymru’n genedl sy’n gyfrifol yn fyd-eang am “*gynnig cymorth i wledydd a all ddysgu o’n profiad o gynyddu nifer y bobl sy’n siarad iaith frodorol a oedd gynt o dan fygythiad*”.

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn esbonio ein bod yn credu bod modd defnyddio'n profiad o ddatblygu a hybu'r Gymraeg i helpu gwledydd eraill mewn tair prif ffordd:

- Datblygu technolegau iaith, megis cyfieithu peirianyddol, adnabod lleferydd a deallusrwydd artiffisial ar gyfer ieithoedd lleiafrifol.
- Ein dull o drochi iaith yn hwyr – creu canolfannau, sy'n caniatáu i blant a addysgwyd drwy gyfrwng y Saesneg, drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg ran o'r ffordd drwy eu gyrfa yn yr ysgol.
- Hybu defnyddio ieithoedd lleiafrifol gan artistiaid wrth berfformio ar y llwyfan rhyngwladol.

**Cysylltiadau rhyngwladol**

**Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol**
Mae'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop-gyfan sy'n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran Ieithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach (CRSS) ledled Ewrop. Mae aelodau'r NPLD yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â phrifysgolion a chymdeithasau. Cymru yw Is-gadeirydd y Rhwydwaith ar hyn o bryd.

Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau, gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom gyfle i gyfrannu i '*Campus'* yr NPLD a drefnwyd ar y cyd â'r Coppetiers Foundation. Thema'r digwyddiad oedd *Rhoi Defnydd Cymdeithasol Ieithoedd Lleiafrifol ar waith*. Roedd cyfraniad Cymru yn ymwneud â sicrhau bod rhieni sydd â sgiliau Cymraeg, ond sydd efallai yn ddihyder, yn siarad Cymraeg gyda'u plant. Arweiniodd hyn at wahoddiad i holl gyfranogwyr y sesiynau a'r NPLD i gydweithio â ni wrth i ni ddatblygu'n *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*.

Llofnododd y Gweinidog ddatganiad o fwriad gyda Llywodraeth Quebec ym Mis Chwefror 2020, lle nodwyd y byddent yn parhau gyda'r bwriad i gydweithio ar bolisïau iaith. Yn ystod yr un ymweliad, fe wnaeth y Gweinidog gyfarfod â Rene Arseneault MP, Ysgrifennydd Seneddol dros Ddatblygu Economaidd ac Ieithoedd Swyddogol Canada i drafod profiadau Cymru a Chanada yn hyrwyddo dwyieithrwydd / amlieithrwydd. Fel rhan o'n gweithgaredd ni yn Japan dros gyfnod Cwpan Rygbi'r Byd yn ystod hydref 2019, fe hyrwyddwyd diwylliant ac iaith Gymraeg drwy berfformiadau gan Gruff Rhys ac HMS Morris. Cynhaliwyd hefyd sesiwn Dysgu Cymraeg yn Nhŷ Cymru yng nghanol Tokyo.

**Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**
Ni sy'n cadeirio grŵp gwaith Ieithoedd Brodorol, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae sefyllfa yr holl ieithoedd a gynrychiolir gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn amrywio'n fawr (Cymraeg, Cernyweg, Gaeleg yr Alban, Sgoteg, Manaweg, Sgoteg Wlster, Gwyddeleg, Guernésiais a Jèrriais) ond mae ganddynt lawer iawn yn gyffredin hefyd. Rydym wedi parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i drafod, i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd.

Eleni, bu swyddogion ar ymweliadau ymchwil â Chernyw ac Ynys Manaw. Croesawyd swyddogion i Gaerdydd hefyd i arsylwi ar ganolfan drochi, i ymweld ag un o aelwydydd yr Urdd, i ddysgu am waith corpws, marchnata a thechnoleg ac i ddysgu mwy am waith yr Urdd. Cynhaliwyd y cyfarfod gweinidogol (sydd i'w gynnal bob dwy flynedd) ar Ynys Manaw fis Tachwedd. Yno, bu gweinidogion yr holl aelod-weinyddiaethau yn cloriannu rhaglen waith y tair blynedd flaenorol ac yn edrych ymlaen at raglen waith y dyfodol. Bydd y rhaglen waith nesaf yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, defnydd iaith a seilwaith / technoleg.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hefyd, ar Ddiwrnod Ieithoedd Ewrop (26 Medi), rhyddhaodd y Grŵp restr o ganeuon yn yr ieithoedd a gynrychiolir ar Spotify, a hynny am y tro cyntaf erioed. Y nod oedd dathlu amrywiaeth ieithyddol yr ynysoedd a rhoi cyfle i bobl wrando ar gerddoriaeth gyfoes yn yr ieithoedd hyn pa un a ydynt yn gallu eu siarad ai peidio.

**Digwyddiadau rhyngwladol**

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i gyfrannu at y nod o sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd ac o hybu pŵer cymell tawel Cymru:

- Cefnogaeth i ddigwyddiad "Mamiaith / Muttersprache" ym Merlin a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru ar y cyd â Swyddfa Cymru Berlin, y Cyngor Prydeinig a Phrifysgol Humboldt fel rhan o ddathliad *Blwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO 2019*. Yn cynrychioli Cymru oedd Mererid Hopwood, Kizzy Crawford a'r bardd cenedlaethol Ifor ap Glyn.
- Trefnodd swyddfa Cymru ym Mrwsel ddigwyddiad i hybu amlieithrwydd ac ieithoedd lleiafrifol yn mis Hydref 2019. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â swyddfeydd yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda'r bardd cenedlaethol yn perfformio.
- Roedd dathlu'r iaith yn rhan annatod o Wythnos Cymru Dulyn 2020 – cynhaliwyd noson o farddoniaeth amlieithog a lansiad partneriaeth newydd rhwng mudiad ieuenctid Gwyddelig TG Lurgan a'r Urdd.
- Rhoddodd Gŵyl Lleisiau Arall yn Aberteifi blatfform arbennig i greadigrwydd a diwylliant yn yr iaith Gymraeg a chreu pont rhwng Cymru a'n partneriaid yn Iwerddon.
- Yn sgil COVID-19, aeth prosiect blwyddyn UNESCO "Mamiaith" ar-lein ym mis Ebrill fel rhan o Ŵyl Lenyddiaeth Cúirt.

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd**

Ar 17 Mai, cydweithiodd yr Urdd ag Academi Eastside Young Leaders (EYLA) yn Nwyrain Llundain i lansio ei Neges Heddwch ac Ewyllys Da flynyddol. Roedd y neges yn gyfle i Gymry ifanc godi eu llais a sefyll gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac ar draws y byd sy'n dioddef o wahanol fathau o drais.

Cafodd ffilm arbennig ei chreu er mwyn lledaenu'r neges i gynulleidfaoedd newydd ar draws y byd. Bob blwyddyn, mae'r neges hon yn codi proffil yr Urdd yn rhyngwladol ac yn adeiladu pontydd. Cyrhaeddodd y neges 5.2 miliwn o bobl, mewn 35 gwlad a

thrwy 44 iaith. Fel rhan o'r prosiect, fe wnaeth yr Urdd groesawu pobl ifanc yr EYLA i Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd. Mae'r neges yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn.

**Digwyddiadau mawr**

Yn 2019-20, fe wnaethom ni gefnogi 28 o ddigwyddiadau gan gynnwys Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol – y ddau ddigwyddiad yn dathlu'r iaith a'n diwylliant. Roedd hyfforddiant criced ar gael bob dydd yn Gymraeg yn ystod Eisteddfod yr Urdd ac fe wnaethom ni hefyd drefnu Taith y Tlws a fu'n ymweld â nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys Gŵyl Gomedi Aberystwyth a oedd yn cynnig llwyfan i nifer o artistiaid a oedd yn perfformio yn Gymraeg. Rydym yn parhau i weithio gyda thîm Hybu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac wrthi'n trafod sut i wella sut ydym ni'n monitro digwyddiadau, a fydd yn gyfle i ni gydweithio'n agosach nag erioed.

**Twristiaeth a marchnata**

Yn y maes hwn, mae disgwyl i ni arwain drwy esiampl, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog. Gwnawn hyn drwy ddylanwadu ar ein holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.

Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog a gweledol o'n hymgyrchoedd i hybu Cymru ar lwyfan byd-eang, a'r neges am ddwyieithrwydd Cymru hefyd yn cael ei rhannu ar blatfformau perthnasol. Mae hyn yn glir ar wefan Wales.com – prif borth digidol Cymru – sy'n cynnwys erthyglau penodol ar y Gymraeg a Chymru ddwyieithog ac mae'r neges hon hefyd yn frith drwy lawer o'r cynnwys yr ydym yn ei ddefnyddio ar draws ein hamryw wefannau.

Mae prosiectau cenedlaethol eraill fel Ffordd Cymru a'r blynyddoedd twristaidd thematig hefyd yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg a'n canllawiau i'r diwydiant yn pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o brofiad unigryw Cymru. Er enghraifft, roedd ymgyrch o Hydref i Ionawr 2019-2020 yn hyrwyddo lleoliadau llai amlwg i gynulleidfaoedd o fewn Cymru. Roedd personoliaethau adnabyddus fel Lisa Jên, Esyllt Sears a Huw Brassington yn rhan o'r gwaith i greu cynnwys unigryw i bobl yng Nghymru am ardaloedd gwahanol ledled y wlad, a gafodd ei rannu ar ein gwefan a'n sianeli cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch yn un llwyddiannus iawn, gan dderbyn adborth cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Hefyd ar 29 Chwefror 2020, i ddathlu blwyddyn naid / Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd gig yn Bounce Below, Llechwedd, gyda gwahanol fandiau o Gymru yn canu yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn dathlu a hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg. Perfformiodd Kizzy Crawford a'r band lleol Alffa i gynulleidfa fach a oedd yn gwylio ac yn neidio ar y rhwydi.

Mae gwneud mwy o hyn yn rhan fawr o'n Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025, gyda'r pwyslais ar daro cydbwysedd rhwng bro (y lleol, a'r Cymreig) a'r byd.

Er bod gwaith marchnata Cymru wedi cael ei gyfyngu gan COVID-19, bydd unrhyw ymgyrchoedd yn ystod y cyfnod adfer yn hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg, a thwristiaeth gymunedol gyda phwyslais diwylliannol lle bo hynny'n briodol.

**Pecyn croeso**

Rydym am wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu drwy dreialu ymyriadau.

Yn sgil lansio 'Pecyn Croeso i Gymru, Croeso i'r Gymraeg' ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, cyflwynwyd y pecyn yn Sir Gâr. Gwelwyd ei bod hi'n anodd cyrraedd y grŵp targed ac o ganlyniad mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda meddygfeydd ac adrannau treth cyngor yr awdurdodau lleol er mwyn ystyried ffyrdd o gyflwyno'r pecyn wrth gofrestru gyda meddyg teulu neu drefnu taliad treth cyngor. Mae gwaith wedi digwydd gyda meddygfeydd ac adrannau treth cyngor yn Sir Gâr. Mae'r pecynnau hefyd wedi esblygu i ddangos pwysigrwydd ystyried y Gymraeg i berchnogion sy'n prynu busnesau.

Rydym hefyd yn datblygu gwell cefnogaeth i wella'r broses o integreiddio newydd-ddyfodiaid â chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn debyg i raglen *Voluntariat per la Llengua* yng Nghatalwnia.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi sicrhau bod rhaglen 'Siarad' yn weithredol ymhob rhan o Gymru er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destun anffurfiol. Mae disgwyl i'r parau dreulio o leiaf 10 awr gyda'i gilydd yn defnyddio'r Gymraeg. Yn sgil COVID-19, bydd y Ganolfan yn mynd ati i ail-lansio 'Siarad' fel ei fod yn gynllun ar-lein.

## 12. Technoleg ddigidol

Mae'r gwaith o weithredu pecynnau gwaith y *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg* yn parhau. Mae gwaith arloesol wedi ei wneud gan Brifysgol Caerdydd ym maes mewnosodiadau geiriau Cymraeg ac mae trawsgrifio lleferydd Cymraeg ar gael ar ffurf apiau newydd gan Brifysgol Bangor.

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn dal i wella ei chynorthwyydd personol medrus Macsen sy'n 'clywed' cwestiynau llafar yn Gymraeg am bynciau penodol ac yn gallu rhoi atebion defnyddiol iddynt. Bellach, mae modd adnabod a thrawsgrifio'r 2,500 o eiriau Cymraeg sydd amlaf yn cael eu siarad a'u hysgrifennu yn y Gymraeg.

**Datblygu a buddsoddi mewn TG**

Ein nod yw archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau i gefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r gwaith o asesu sut orau i ddatblygu seilwaith ieithyddol a thechnolegol y Gymraeg, sy'n cynnwys gwaith geiriadura, terminoleg, adnoddau corpws a'r proffesiwn cyfieithu, yn parhau. Yng nghyd-destun cynorthwyydd personol

medrus Macsen Prifysgol Bangor a gwaith ein Gwasanaeth Cyfieithu, bu rhagor o ddatblygu ym myd cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, deallusrwydd artiffisial ac adnabod lleferydd Cymraeg.

**Datblygiadau technoleg at ddefnydd cymdeithasol**

Mae’r gwaith ar y Clwb Cod mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn parhau eleni gyda chefnogaeth Cracio’r Cod Llywodraeth Cymru.

O safbwynt nodweddion daearyddol amlwg, gall enwau Cymraeg fod yn allweddol wrth i ni farchnata Cymru i dwristiaid o bedwar ban byd. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi bod yn hyrwyddo rôl y Gymraeg mewn datblygiadau technolegol fel mapiau ar-lein, gan ariannu gwaith ar ddatblygu adnodd openstreetmap.cymru. Ar hyn o bryd, mae’r map yn cynnwys enwau Cymraeg ar gyfer trefi, pentrefi a dinasoedd, ac rydym yn ystyried ychwanegu nodweddion pellach fel afonydd, llynnoedd, mynyddoedd ac ati. Y gobaith yw y bydd modd cynnal rhagor o bartïon mapio yn rhithiol yn y dyfodol agos, er mwyn labelu’r nodweddion hyn drwy weithgaredd torfol.

**Y prif gwmnïau technoleg**

Rydym wrthi’n gweithredu ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. Yn ogystal â chynnal sgyrsiau â chwmnïau technoleg, roedd ein gwaith yn rhoi pwyslais ar ddatblygu seilwaith technoleg y Gymraeg. Gall cwmnïau o bob math ddefnyddio’r cydrannau sy’n cael eu creu er mwyn darparu meddalwedd sy’n cynnig gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn edrych ymlaen at ddarparu gwybodaeth fanwl i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd yn ystod y flwyddyn nesaf ar weithredu’r cynllun a hynny fel rhan o’i ymchwiliad i dechnoleg a’r Gymraeg.

**Sefydliadau sy’n derbyn grantiau**

Gwelwn ei bod yn hollbwysig bod y rhai sy’n cael grantiau gennym, a sefydliadau sy’n hybu’r Gymraeg, yn defnyddio technoleg yn dda, gan gynnwys systemau data, cyfathrebu mewnol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau marchnata. I’r perwyl hwnnw, cafodd targedau ynglŷn â thechnoleg a marchnata eu cynnwys wrth ddyrannu grant Hybu a Hyrwyddo’r Defnydd o’r Gymraeg. Mae pob un o’n partneriaid grant yn defnyddio dulliau electronig i farchnata eu gwaith.

Mae’r mentrau iaith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a’r Papurau Bro oll yn defnyddio technoleg wrth eu gwaith dydd i ddydd, wrth gynnal cyfarfodydd, cyflwyno adroddiadau ac wrth ymgysylltu â’u cynulleidfaoedd targed. Yn sgil COVID-19, defnyddiwyd technoleg mewn amryw o ddulliau creadigol gan ein partneriaid i gynnal gweithgareddau ac er mwyn apelio at gynulleidfaoedd newydd. Cynhaliwyd sesiynau creu fideos YouTube i blant gan nifer o fentrau iaith, a defnyddir cyfryngau cymdeithasol amrywiol, apiau a gwefannau gan bob corff grant i hyrwyddo gweithgareddau. Mae’r gweithgareddau hyn yn cefnogi defnydd iaith cadarnhaol yn

unol ag amcanion *Cymraeg 2050,* ac yn darged sylfaenol i amodau'r grant Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg.

**Wicipedia**

Rhoddwyd grant i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer prosiect o'r enw #WiciLlên sydd wedi sicrhau 50,000 eitem Wikidata newydd amlieithog am lyfrau, awduron a chyhoeddwyr o Gymru. Crëwyd 506 erthygl Wicipedia Cymraeg newydd am lenorion Cymru a llyfrau o ganlyniad i'r ymgyrch a gweithdai â dinasyddion.

## 13. Seilwaith ieithyddol

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau gyda'r gwaith o asesu sut orau i ddatblygu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, sy'n cynnwys gwaith geiriadura, terminoleg, adnoddau corpws a'r proffesiwn cyfieithu. Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn cyflwyno cynigion polisi ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl o bob cefndir ddefnyddio'r Gymraeg – yn weithleoedd, yn blant ysgol, yn athrawon, yn siaradwyr newydd neu'n siaradwyr rheolaidd – drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod lle i droi am adnoddau neu ffynonellau ieithyddol.

Yn y pen draw, y bwriad yw i hyn arwain at bolisi manylach yn ystod y cyfnod nesaf.

**Adnoddau seilwaith ieithyddol**

Dros y cyfnod nesaf, byddwn yn cyflwyno cynigion polisi ar gyfer cydlynu'r gwahanol elfennau'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr.

Rydym yn darparu cyllid grant i brosiect Geiriadur Prifysgol Cymru, sy'n cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, gan gynnwys creu amodau ffafriol i'r iaith, technoleg ddigidol a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Geiriadur fel conglfaen ieithyddol i'r Gymraeg.

Mae'r Termiadur Addysg yn parhau i ddatblygu, gyda phwyslais diweddar ar gefnogi'r gwaith o ddiwygio cymwysterau diwygiedig Iechyd a Gofal a Gofal Plant a gafodd eu dysgu gyntaf ym Medi 2019.

Rhannodd ein Gwasanaeth Cyfieithu 73 cof cyfieithu ar wefan Byd Term Cymru[19], gan ddod â'r cyfanswm o gofau dan drwydded agored i 98 erbyn diwedd Mawrth 2020.

Rhannodd Prifysgol Bangor restr Termau Cyfatebol Bwyd, Deiet ac Arlwyo a Thermau Cyfatebol Seicoleg fel lawrlwythiad dan drwydded agored fel rhan o'u gwaith ar y Termiadur Addysg.

[19] https://llyw.cymru/bydtermcymru

**Cyfieithu**

Er mwyn cefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i fodloni'r galw am eu gwasanaethau, rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dyma'r corff sy'n cynnal, yn sicrhau ac yn hyrwyddo safonau cyfieithu proffesiynol, gan wella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn sôn am ddatblygiadau ym maes cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron fel rhan o'n gwaith ar dechnoleg a seilwaith ieithyddol.

## 14. Cynllunio Ieithyddol

Ein nod yw sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith fel gwaith hanfodol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

Yn ogystal â'r cyhoeddiad ynghylch Prosiect 2050, a'r gwaith cychwynnol o sefydlu'r prosiect hwnnw a nodir ar ddechrau'r adran hon, mae ein gwaith yn y maes hwn hefyd wedi cynnwys yr isod.

**Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050**

Uwch swyddogion o bob cwr o'r Llywodraeth yw aelodau Bwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050*. Diben y Bwrdd yw craffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod bob tymor i drafod materion megis prif-ffrydio'r strategaeth ar draws gwaith y Llywodraeth, ystyried risgiau, arfer da a materion sy'n codi a allai effeithio ar *Cymraeg 2050*.

**Cyngor Partneriaeth y Gymraeg**

Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y tymor i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â *Cymraeg 2050*. Bu'n cynghori'r Gweinidog ar amrywiol faterion sy'n effeithio ar faes polisi y Gymraeg er enghraifft Brexit a'r economi, ail gartrefi, y gweithlu addysg a'r polisi trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.

**Gweithio gydag awdurdodau lleol**

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio strategaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae yna Fforymau Sirol ym mhob sir yng Nghymru, bron, a gydlynir gan y mentrau iaith. Bwriad y fforymau hyn yw rhannu gwybodaeth ymysg partneriaid sy'n gweithio ar ddefnydd y Gymraeg ledled y sir, ac i gyd-gynllunio digwyddiadau a chydweithio'n strategol lle bo modd. Ym mis Rhagfyr 2019, cynhaliodd Mentrau Iaith Cymru arolwg

i grynhoi sefyllfa bresennol y Fforymau Sirol ledled y wlad, adnabod arferion da i'w rhannu gydag ardaloedd eraill, ac i roi arweiniad i'r siroedd hynny sydd heb fforwm effeithiol ar hyn o bryd.

Mae cynllunio addysg Gymraeg a hybu defnydd o'r iaith yn mynd law yn llaw. Rydym yn gweld enghreifftiau cynyddol o awdurdodau lleol yn manteisio ar arbenigedd ein partneriaid lleol i'w cefnogi gydag agweddau o'i cynllunio addysg Gymraeg. Mae nifer o fforymau addysg bellach wedi sefydlu is-grwpiau hyrwyddo, sy'n cydweithio ar ddulliau i gryfhau'r wybodaeth am addysg Gymraeg sydd ar gael i rieni a darpar-rieni – ledled y sir ac yn lleol.

## 15. Gwerthuso ac ymchwil

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth, a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt, mewn achosion lle'r oedd hynny'n bosibl. Roedd hynny'n cynnwys cyhoeddi astudiaeth ymchwil ar y Gymraeg a'r Economi[20] ym mis Chwefror 2020. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig adolygiad o'r dystiolaeth a hefyd o'r dulliau sydd wedi eu defnyddio i archwilio'r gydberthynas rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill perthnasol, a'r economi. Hefyd, cyflawnwyd gwaith maes ar gyfer gwerthusiadau o'r Siarter Iaith a'r Cynllun Sabothol i ymarferwyr addysg.

Cyfrannodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru at y sail dystiolaeth ar gyfer adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl eu darpariaeth ieithyddol. Cwblhawyd manyleb ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Grant i Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg, ond canslwyd y broses dendro ddiwedd Mawrth 2020 oherwydd COVID-19.

Gwnaethpwyd peth cynnydd o ran datblygu Fframwaith Gwerthuso ar gyfer *Cymraeg 2050*, a bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2020-21.

Fel rhan o raglen prif-ffrydio'r Gymraeg ar draws ein gweithgareddau ymchwil, rydym wedi rhoi sylw penodol i'r gwersi a ddysgwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan osod sail ar gyfer datblygu pellach.

Yn ystod y flwyddyn, manteisiodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar gyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau drwy rwydweithiau ymchwil a lledaenu canfyddiadau eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad ar brif-ffrydio'r Gymraeg mewn ymchwil yng Nghynhadledd Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru ym mis Gorffennaf 2019.

Bu'r gwaith o feithrin capasiti ymchwil ar gyfer y dyfodol drwy raglen ysgoloriaethau doethurol a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn parhau. Mae tair o'r ysgoloriaethau hyn yn archwilio agweddau ar y Gymraeg ac ieithoedd mewn addysg.

---

[20] https://llyw.cymru/y-gymraeg-ar-economi

**Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes**

Dechreuodd yr Arolwg Defnydd Iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, a’r bwriad oedd iddo barhau tan ddiwedd mis Mawrth 2021. Yn anffodus, oherwydd COVID-19, bu’n rhaid atal yr arolwg yng nghanol mis Mawrth 2020. Y bwriad yw datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar sut mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg.

Fe wnaethom ddefnyddio yr un fethodoleg yn yr arolwg hwn ag yn arolygon 2004-06 a 2013-15 er mwyn gallu cymharu’r canlyniadau. Rhoddwyd holiaduron hunan-lenwi i'r rheiny a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd holiaduron gwahanol i blant ac i oedolion yn gofyn cwestiynau ynghylch pa mor aml, ble a phryd maent yn defnyddio eu Cymraeg.

Gan fod yr arolwg wedi gorfod dod i ben ar ôl wyth mis a hanner, ni fyddwn yn gallu dadansoddi’r data ar lefel awdurdod lleol fel y dymunwyd, ond byddwn yn cyhoeddi’r canlyniadau a gasglwyd hyd yn hyn erbyn diwedd 2020-21.

Cydweithiodd yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi gyda’r Ganolfan Astudiaethau Hydredol i ddadansoddi Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dadansoddwyd data Cyfrifiad Poblogaeth a Thai o 1971 tan 2011 i weld sut y mae gallu unigolion yn y Gymraeg yn newid dros amser. Pwrpas y gwaith oedd darganfod nodweddion y bobl hynny sy’n newid eu gallu ieithyddol (h.y. yn ei dysgu neu’n ei cholli) rhwng y cyfrifiadau er mwyn deall yn well ar ba adegau yn eu bywydau y mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd. Cyflwynwyd y canlyniadau cychwynnol mewn poster yng nghynhadledd Cymdeithas Astudiaethau Poblogaeth Prydain. Byddwn yn dadansoddi'r data hwn ymhellach y flwyddyn nesaf.

Cwblhawyd prosiect traethawd meistr gan fyfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2018/19 yn dadansoddi dilyniant dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi iddynt gael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) yn saith mlwydd oed, gan edrych ar nodweddion y dysgwyr hynny.

# Casgliad

Mae’r adroddiad hwn yn gyfle i grynhoi ein gwaith ni a’n partneriaid wrth weithredu *Cymraeg 2050* yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20. Mae’n debygol y bydd ein hadroddiad blynyddol nesaf yn dra gwahanol o ystyried gymaint y mae’r byd o’n cwmpas wedi newid eleni. Bydd yr adroddiad hwnnw’n trafod ein gwaith wrth i ni ymateb i COVID-19: cefnogi ein partneriaid, parhau i chwilio am gyfleoedd i arloesi ac ymateb i bob math o bethau sy’n effeithio ar y Gymraeg werth iddynt godi. Yn bendant, bydd uned newydd Prosiect 2050 wrth galon y gwaith hwn wrth i ni ddod i arfer â gweithredu’r strategaeth yn y byd newydd yr ydym yn byw ynddo.

Ein bwriad o hyd yw cynyddu nifer y siaradwyr, cynyddu defnydd iaith a gwella’r seilwaith sy’n sylfaen i’r cyfan. A bydd ein Rhaglen Waith nesaf yn edrych o’r newydd ar sut y gallwn barhau â’n gweledigaeth, gyda’n gilydd, i gyrraedd y miliwn.